Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU
NHS WALES

# Fframwaith Atebolrwydd a Chymorth GIG Cymru

## Trefniadau integredig ar gyfer atebolrwydd, uwchgyfeirio a chymorth ymyrryd

**Medi 2026**

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG55245, ISBN digidol 978-1-80853-430-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cynnwys

Crynodeb gweithredol ..... 2
1. Cyflwyniad ..... 3
2. Diben ac egwyddorion ..... 4
3. Trefniadau atebolrwydd ..... 6
4. Proses asesu a threfniadau teirochrog ..... 13
5. Dull uwchgyfeirio ..... 15
6. Rolau, cyfrifoldebau a threfniadau llywodraethiant ..... 21
7. Dull cymorth ac ymyrryd ..... 25
8. Isgyfeirio ac ymreolaeth a enillwyd ..... 30
Atodiad A. Maes sylfaen Arweinyddiaeth (Arwain yn Dda) ..... 32
Atodiad B. Colofn ansawdd ..... 35
Atodiad C. Colofn y gweithlu ..... 38
Atodiad D. Colofn cyllid a chynllunio ..... 42
Atodiad E. Colofn Cyflawni a Pherfformiad ..... 45
Atodiad F. Rhestr termau ..... 48

# Crynodeb gweithredol

Mae'r Fframwaith hwn yn sefydlu un model gweithredu ar gyfer atebolrwydd a chymorth yn GIG Cymru. Mae'n disodli'r naratif ar wahân ar oruchwylio ac uwchgyfeirio â dull integredig sy'n cwmpasu atebolrwydd arferol, sicrwydd gweithredol, uwchgyfeirio, cymorth i wella ac ymyrryd, adfer, gwyrdroi, isgyfeirio ac ymreolaeth a enillwyd.

- Un strwythur: pedair colofn atebolrwydd, sef Ansawdd, y Gweithlu, Cyllid/Cynllunio a Chyflawni/Perfformiad, wedi'u hategu gan faes sylfaen Arweinyddiaeth (Arwain yn Dda).
- Model pum lefel cymesur, o atebolrwydd arferol ar lefel 1 i'r lefel uchaf o uwchgyfeirio ar lefel 5. Gall uwchgyfeirio fod yn berthnasol i un neu fwy o golofnau, y maes sylfaen neu'r sefydliad cyfan.
- Perfformiad a Gwella GIG Cymru fel y prif ryngwyneb sicrwydd gweithredol, gan dynnu sylfaen dystiolaeth gyffredin ynghyd a chydlynu cymorth gwella.
- Trefniadau teirochrog diwygiedig sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Perfformiad a Gwella GIG Cymru, gyda rolau penodol, tystiolaeth strwythuredig ac argymhellion tryloyw.
- Cynnig cymorth diffiniedig sy'n cyfateb i'r lefel uwchgyfeirio a'r angen. Mae lefel 2 yn rhoi pwyslais ar atal; lefel 3 ar adfer dan arweiniad y sefydliad; lefel 4 ar gymorth dwys a gomisiynir a gwyrdroi; a lefel 5 ar ymyrryd ac adfer dan gyfarwyddyd, gan gynnwys defnyddio pwerau statudol lle bo angen.
- Integreiddio'r swyddogaeth Cymorth Dwys, Adfer a Gwyrdroi yn ffurfiol ar gyfer sefydliadau ar lefel 4 ac uwch, yn amodol ar drefniadau comisiynu gan Lywodraeth Cymru, gyda chyfnodau gweithredu, asesu, cynllunio gwelliant integredig, cymorth a phontio.
- Meini prawf isgyfeirio cliriach sy'n canolbwyntio ar nifer bach o ganlyniadau mesuradwy, lleihau risgiau, gallu a chynaliadwyedd. Bydd yr oruchwyliaeth yn lleihau wrth i welliant gael ei ddangos a'i gynnal.

Mae'r fframwaith yn hanfodol er mwyn sicrhau gwell ansawdd gofal a pherfformiad yn gyffredinol a lleihau amrywiadau diangen yn y GIG. Mae'r Fframwaith wedi'i gynllunio i greu llinell glir o ddisgwyliadau, tystiolaeth ac asesu i weithredu, cymorth, gwelliant ac ymreolaeth barhaus. Nid yw uwchgyfeirio yn nod ynddo'i hun; mae'n fecanwaith i sicrhau gwelliant amserol a chynaliadwy.

Mae'r Fframwaith yn canolbwyntio ar reoli risg yn ataliol, gan roi mwy o bwyslais ar ddull mwy gweithredol a chydweithredol. Bydd yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i gefnogi sefydliadau'r GIG i nodi a datrys problemau cyn gynted â phosibl; gan hyrwyddo diwylliant risg sy'n croesawu bod yn agored, yn cefnogi tryloywder ac yn croesawu her adeiladol. Mae'r Fframwaith yn hyrwyddo partneriaeth gryfach rhwng Llywodraeth Cymru, Perfformiad a Gwella GIG Cymru a sefydliadau'r GIG. Ei nod yw ategu'r gallu ar y cyd i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i'r heriau mwyaf arwyddocaol y mae'r GIG yn eu hwynebu, lle bynnag y bo hynny'n ymarferol ac yn briodol.

Mae'r Fframwaith yn cynnwys pum lefel uwchgyfeirio; darparu model priodol ar gyfer cymorth ac ymyrryd.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cyd-destun

Mae sefydliadau GIG Cymru yn gweithredu mewn amgylchedd cymhleth a nodweddir gan anghenion cynyddol a newidiol ymhlith y boblogaeth, cyfyngiadau ar y gweithlu, pwysau ariannol, gwasanaethau bregus a dibyniaeth gynyddol ar ddarpariaeth ranbarthol a thraws-sector. Felly rhaid cyfuno atebolrwydd cryf â chymorth amserol a'r gallu i wella.

O 1 Ebrill 2026 ymlaen, cyflwynodd trefniadau atebolrwydd newydd set symlach o bedair colofn a maes sylfaen Arweinyddiaeth (Arwain yn Dda), ynghyd â strwythur cyfarfodydd a oedd yn seiliedig i raddau mwy ar risg a rôl fwy i Berfformiad a Gwella GIG Cymru o ran sicrwydd gweithredol. Mae'r Fframwaith hwn yn cydgrynhoi'r trefniadau hynny gyda phrosesau uwchgyfeirio, ymyrryd ac isgyfeirio.

## 1.2 Cwmpas

Mae'r Fframwaith yn berthnasol i fyrddau iechyd, ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd arbennig statudol GIG Cymru. Gellir ei gymhwyso ar lefel y sefydliad cyfan, y golofn neu'r maes sylfaen. Ymdrinnir â sefydliadau a letyir drwy'r corff statudol sy'n eu lletya. Dylid adlewyrchu dibyniaethau ar bartneriaethau a systemau wrth asesu a chynllunio ar gyfer adfer, ond nid yw'r Fframwaith yn creu atebolrwydd ar gyfer sefydliadau y tu allan i GIG Cymru.

Cyfrifoldeb byrddau iechyd, ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd arbennig unigol y GIG yw rheoli'r broses o ddarparu gwasanaethau a pherfformiad o ddydd i ddydd, a hynny drwy eu strwythurau rheoli a'u trefniadau llywodraethiant eu hunain.

## 1.3 Cyd-destun cyfreithiol a pholisi

Mae'r Fframwaith yn gweithredu o fewn cyfrifoldebau a phwerau statudol presennol Gweinidogion Cymru a sefydliadau GIG Cymru. Mae Gweinidogion Cymru yn cadw'r swyddogaethau goruchwylio ac ymyrryd perthnasol, gan gynnwys pwerau o dan adrannau 26 i 28 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Nid yw'r Fframwaith yn newid atebolrwydd statudol na swyddogaethau annibynnol Archwilio Cymru nac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Mae'r fframwaith statudol a pholisi perthnasol wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth a’r dogfennau polisi canlynol:

- Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014.
- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, gan gynnwys y dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a deddfwriaeth ehangach ar gydraddoldeb, y Gymraeg, iechyd y cyhoedd a gofal cymdeithasol.
- Fframweithiau Cynllunio, Perfformiad, ac ansawdd a diogelwch GIG Cymru, blaenoriaethau gweinidogol a chynlluniau sefydliadau.

Mae gan sefydliadau GIG Cymru ddyletswydd i ymdrin â'u materion yn effeithiol a dangos canlyniadau mesuradwy sy'n meithrin hyder cleifion, y cyhoedd a rhanddeiliaid eu bod yn darparu gofal cynaliadwy o ansawdd uchel.

# 2. Diben ac egwyddorion

## 2.1 Diben

Diben y Fframwaith yw:

- gosod disgwyliadau clir ac atebolrwydd ar gyfer cyflawni a chanlyniadau;
- rhoi sicrwydd cymesur i Weinidogion, Byrddau a’r cyhoedd;
- nodi risgiau datblygol yn gynnar a gweithredu cyn iddynt ymsefydlu;
- cymhwyso prosesau uwchgyfeirio ac ymyrryd yn gyson, yn dryloyw ac yn gymesur;
- paru her â chynnig penodol o ran gwelliant a chymorth;
- cefnogi adferiad cynaliadwy, dysgu ac ymreolaeth a enillwyd;
- lleihau achosion o ddyblygu drwy ddefnyddio sylfaen dystiolaeth gyffredin a phensaernïaeth cyfarfodydd gydlynol.

## 2.2 Egwyddorion

| Egwyddor | Gweithrediad |
|---|---|
| Canlyniadau cleifion a'r boblogaeth yn gyntaf | Mae asesiadau a chamau gweithredu yn canolbwyntio ar ddiogelwch, profiad, tegwch, mynediad, canlyniadau a chynaliadwyedd, yn hytrach na chydymffurfiaeth â phrosesau yn unig. |
| Atebolrwydd clir | Mae byrddau'n parhau i fod yn atebol am arweinyddiaeth, llywodraethiant a pherfformiad sefydliadol. Mae Llywodraeth Cymru yn gosod disgwyliadau ac yn gwneud penderfyniadau ffurfiol ar uwchgyfeirio materion. Mae Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn darparu mewnwelediadau a chymorth gweithredol. |
| Un fersiwn o'r gwir | Dylai set ddata gyffredin, naratif a storfa dystiolaeth a lywodraethir gefnogi pob trafodaeth ynghylch atebolrwydd, uwchgyfeirio a chymorth. |
| Cymesur ac yn seiliedig ar risg | Mae dwyster y trefniadau goruchwylio, adrodd ac ymyrryd yn adlewyrchu lefel y risg, ei pharhad, ei graddfa, a'i chymhlethdod, yn ogystal â gallu'r sefydliad. |
| Dim syrpreisys | Sefydliadau'n nodi risgiau materol gwirioneddol neu ddatblygol yn gynnar. Mae partneriaid yn rhannu gwybodaeth berthnasol yn brydlon. |
| Cefnogi a herio gyda'n gilydd | Mae pob penderfyniad uwchgyfeirio yn nodi'r gwelliant arfaethedig, y cymorth sydd ei angen a chanlyniadau peidio â chyflawni. |
| Tryloywder a thegwch | Caiff meini prawf penderfyniadau, y rhesymeg, y dystiolaeth, a'r disgwyliadau o ran isgyfeirio eu cofnodi a'u cyhoeddi. |

| Egwyddor | Gweithrediad |
|---|---|
| Dysgu a gwelliant parhaus | Mae'r system yn nodi methodolegau gwella effeithiol ac yn eu lledaenu, gan gynnwys dysgu o brosesau uwchgyfeirio ac adfer. |
| Ymreolaeth a enillwyd | Mae darpariaeth ddibynadwy a threfniadau llywodraethiant aeddfed yn arwain at oruchwyliaeth lai manwl. Mae dirywiad neu sicrwydd gwan yn arwain at graffu a chymorth manylach. |
| Parch at annibyniaeth statudol | Mae swyddogaethau archwilio, arolygu, swyddogaethau Llywodraeth Cymru a swyddogaethau gweithredol y GIG yn parhau i fod ar wahân ac nid yw cydweithio yn cymylu'r ffiniau rhyngddynt. |
| Cyfathrebu | Mae'r prosesau cyfathrebu'n agored, yn amserol ac yn ddwyffordd, gan gefnogi'r gwaith o adnabod risgiau'n gynnar, pennu disgwyliadau clir a darparu cymorth wedi'i deilwra. |

Gwerthoedd craidd y GIG, sef gofal a thosturi;  urddas a pharch; bod yn agored, gonestrwydd a chyfrifoldeb; ac ansawdd a gwaith tîm; yn parhau i fod yn ganolog i'r dull hwn. Mae Egwyddorion Arweinyddiaeth Dosturiol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru yn sylfaenol i ddull y Fframwaith.

Mae'r Fframwaith yn gwahaniaethu'n glir rhwng:

- Atebolrwydd a goruchwyliaeth
- Uwchgyfeirio
- Ymyriadau a Chymorth
- Cymorth Dwys, Adfer a Gwyrdroi

Mae'r gwahaniaeth hwn yn sicrhau bod sefydliadau'n deall diben pob elfen o'r Fframwaith a'r cymorth sydd ar gael ar bob lefel uwchgyfeirio.

# 3. Trefniadau atebolrwydd

## 3.1 Trosolwg

Mae trefniadau atebolrwydd GIG Cymru yn seiliedig ar fodel atebolrwydd symlach, sy'n seiliedig ar risg, a gynlluniwyd i gryfhau trefniadau goruchwylio, gwella tryloywder a chreu llinellau atebolrwydd cliriach ar draws GIG Cymru. Cyflwynwyd y trefniadau o 1 Ebrill 2026.

Mae'r trefniadau'n seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- llai o ryngwynebau a llinellau atebolrwydd cliriach;
- un fframwaith perfformiad a chanlyniadau y cytunwyd arno;
- un fersiwn o'r gwirionedd drwy sail dystiolaeth a rennir;
- goruchwyliaeth gymesur sy'n seiliedig ar risg;
- ymreolaeth a enillwyd i sefydliadau sy'n dangos darpariaeth gynaliadwy;
- mwy o dryloywder ac atebolrwydd cyhoeddus;
- diwylliant o roi cymorth, gwella ac ymyrryd yn gynnar.

## 3.2 Model gweithredu atebolrwydd

Mae'r model atebolrwydd wedi'i gynllunio i greu cydberthynas glir rhwng blaenoriaethau gweinidogol, cyflawni sefydliadol, sicrwydd, cymorth ac ymyrryd.

Mae'r model yn seiliedig ar y canlynol:

1. Llywodraeth Cymru yn gosod cyfeiriad strategol, disgwyliadau a safonau.
2. Sefydliadau'r GIG yn darparu gwasanaethau ac yn cyflawni canlyniadau yn unol â'r cyfeiriad, y disgwyliadau a'r safonau.
3. Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn gweithredu fel y prif ryngwyneb sicrwydd gweithredol a chymorth.
4. Llywodraeth Cymru yn cael sicrwydd drwy broses atebolrwydd strwythuredig.
5. Trefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd yn cael eu rhoi ar waith lle mae'r broses ddarparu, y trefniadau llywodraethiant neu'r canlyniadau'n dirywio.

Mae'r model atebolrwydd yn ceisio lleihau achosion o ddyblygu drwy greu un rhyngwyneb gweithredol drwy Perfformiad a Gwella GIG Cymru a sefydlu sylfaen dystiolaeth gyffredin sy'n cefnogi adolygiadau atebolrwydd, penderfyniadau ar uwchgyfeirio a threfniadau ymyrryd.

## 3.3 Rolau o fewn trefniadau atebolrwydd

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y canlynol:

- gosod polisïau, cyfeiriad strategol a blaenoriaethau gweinidogol;
- sefydlu safonau gwasanaeth, proffesiynol a chlinigol cenedlaethol;
- cynnal trefniadau atebolrwydd gyda sefydliadau GIG Cymru;
- cadeirio Cyfarfod Goruchwylio misol Llywodraeth Cymru–Perfformiad a Gwella GIG Cymru;
- derbyn a phrofi sicrwydd y system gyfan;
- cynnull trafodaethau teirochrog pan fo angen;
- pennu trefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd;

- cynnal cydberthnasau ag Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru;
- gwneud penderfyniadau mewn perthynas â statws uwchgyfeirio sefydliadau GIG Cymru.

Mae'r Prif Swyddog Meddygol a'r Prif Swyddog Nyrsio yn darparu arweinyddiaeth broffesiynol genedlaethol ac yn rhoi sicrwydd ynghylch ansawdd clinigol, diogelwch, lefelau staffio a safonau proffesiynol, yn ogystal â pha mor dderbyniol yw unrhyw risg weddilliol. Mae eu rôl yn cynnwys cefnogi sefydliadau GIG Cymru i wella ansawdd, diogelwch, cynhyrchiant, gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth, a gwella iechyd y boblogaeth.

**Perfformiad a Gwella GIG Cymru**
Mae Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn gweithredu fel yr unig ryngwyneb sicrwydd gweithredol rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau GIG Cymru. Mae'n chwarae rôl ganolog yn y model atebolrwydd ac yn gweithredu fel pont rhwng disgwyliadau Llywodraeth Cymru a chyflawni gweithredol.

Mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys y canlynol:

- cydgrynhoi gwybodaeth ar draws pob colofn atebolrwydd a'r maes sylfaen;
- cynnal y fframwaith tystiolaeth ac adrodd cyffredin;
- cydlynu prosesau sicrwydd sefydliadol;
- nodi risgiau sefydliadol a risgiau system;
- darparu cymorth strwythuredig i wella;
- ymgymryd â gweithgarwch diagnostig ac adolygiadau;
- cydlynu gweithgarwch cymorth ac ymyrryd;
- darparu synthesis misol o'r system i Lywodraeth Cymru.


Nid yw Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn arfer pwerau ymyrryd statudol nac yn gwneud penderfyniadau ynghylch statws uwchgyfeirio sefydliadau GIG Cymru. Mae'r rhain yn parhau i fod wedi'u cadw ar gyfer Gweinidogion Cymru. Nid yw sefydliadau GIG Cymru yn atebol i Perfformiad a Gwella GIG Cymru chwaith.

**Sefydliadau Statudol GIG Cymru**
Mae byrddau iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig yn parhau i fod yn gyfrifol am y canlynol:

- darparu gofal o ansawdd uchel yn gyson a chanlyniadau iechyd gwell;
- cyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a disgwyliadau o ran perfformiad;
- trefniadau llywodraethiant ac arweinyddiaeth effeithiol;
- stiwardiaeth ariannol;
- cynaliadwyedd y gweithlu;
- rhoi cynlluniau adfer a gwella ar waith;
- darparu gwybodaeth amserol a chywir drwy'r fframwaith adrodd cyffredin.

## 3.4 Colofnau a'r maes sylfaen

Bydd trafodaethau goruchwylio ac atebolrwydd, asesiadau sicrwydd a phenderfyniadau ynghylch uwchgyfeirio yn cael eu strwythuro o amgylch pedair colofn atebolrwydd, wedi'u hategu gan faes sylfaen Arweinyddiaeth (Arwain yn Dda).




**Maes Sylfaen: Arweinyddiaeth (Arwain yn dda)**

Mae arweinyddiaeth, llywodraethiant a diwylliant yn darparu'r sylfaen ar gyfer gwelliant cynaliadwy ar draws GIG Cymru.

Mae'r parth Arwain yn Dda yn ystyried:

- Wedi'i ysgogi gan ddiben a'i arwain gan werthoedd - diben clir, gwerthoedd cryf, a phenderfyniadau moesegol cyson;
- Trefniadau llywodraethiant ac arweinyddiaeth integredig: trefniadau llywodraethiant cryf, atebolrwydd clir, a goruchwyliaeth strategol gan y bwrdd;
- Hunanymwybyddiaeth - craffu allanol, her adeiladol, a sicrwydd wedi'i driongli;
- Diwylliant cynhwysol - hyrwyddo bod yn agored, llais staff, diogelwch seicolegol, a dysgu o gamgymeriadau;
- Penderfyniadau moesegol sy'n seiliedig ar dystiolaeth - cymhwyso tystiolaeth, gwybodaeth a barn broffesiynol mewn modd tryloyw;
- Gwelliant parhaus – gwella ansawdd yn barhaus, a datblygu arweinyddiaeth a'r bwrdd;
- Golwg system gyfan - cydweithio ac ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid ar draws y system, gan ystyried yr effaith ar y system.

Mae Arweinyddiaeth (Arwain yn Dda) yn fframwaith ynddo'i hun ac fe'i hasesir fel ffactor sylfaenol ar draws y pedair colofn. Gall arweinyddiaeth, diwylliant neu drefniadau llywodraethiant gwan gynyddu'r risg mewn colofn, hyd yn oed lle nad yw'r prif fetrigau wedi dirywio'n sylweddol eto. I’r gwrthwyneb, gall arweinyddiaeth aeddfed a rheolaethau credadwy gefnogi ymateb cymesur i amrywiadau byrdymor a’r lefel o gymorth sy'n ofynnol. Gall pryderon sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth, trefniadau llywodraethiant neu ddiwylliant sefydliadol arwain at uwchgyfeirio mewn un golofn neu fwy.

**Colofn 1: Ansawdd**
Mae'r golofn Ansawdd yn ysgogi gwelliant mesuradwy a pharhaus o ran diogelwch, effeithiolrwydd a phrofiad gofal, gyda ffocws clir ar atal niwed y gellir ei osgoi, gwella canlyniadau a lleihau anghydraddoldebau i gleifion a phoblogaethau. Mae'n dwyn sefydliadau GIG Cymru i gyfrif am fodloni safonau a datganiadau ansawdd cenedlaethol, gweithredu ar sail profiadau cleifion, teuluoedd a staff, dysgu a gwella yn sgil digwyddiadau a risgiau datblygol, gwella canlyniadau clinigol, lleihau amrywiadau diangen, a sicrhau trefniadau goruchwylio a gwella effeithiol mewn gwasanaethau bregus a risg uchel. Bydd cynnydd yn cael ei ddangos, nid yn unig drwy'r camau gweithredu a gwblhawyd, ond drwy ostyngiadau amlwg mewn niwed, canlyniadau a phrofiadau gwell, a gwelliannau sydd wedi'u hymgorffori a'u cynnal.

**Colofn 2: Y Gweithlu**
Mae colofn y gweithlu yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan y sefydliad weithlu diogel, cynaliadwy, medrus ac ymgysylltiedig sydd â'r capasiti a'r gallu gofynnol i ddarparu gwasanaethau a gwella canlyniadau. Mae'n ystyried cyflenwad y gweithlu, y gallu i gadw staff, llesiant, cynhyrchiant, sefydlogrwydd arweinyddiaeth, diwylliant sefydliadol a'r gwaith o gynllunio'r gweithlu.

**Colofn 3: Cyllid/Cynllunio**
Mae'r golofn cyllid a chynllunio yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd ariannol y sefydliad, stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus, aeddfedrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau cynllunio strategol, y gallu i gynllunio, rheoli cyfalaf ac ystadau, a'r gallu i gyflawni strategaethau gwasanaethau clinigol credadwy a chynlluniau tymor canolig integredig. Mae'n ystyried perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn, gwydnwch ariannol hirdymor, y broses dyrannu adnoddau, effeithlonrwydd, cynhyrchiant, buddsoddi cyfalaf, seilwaith ystadau, a'r graddau y mae trefniadau cynllunio yn cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau sefydliadol a chenedlaethol. Caiff ystyriaethau o ran strategaeth, cynllunio, cyfalaf ac ystadau eu hasesu o dan y golofn hon, lle maent yn effeithio'n sylweddol ar ansawdd, cynaliadwyedd ariannol, y broses o ddarparu gwasanaethau a pherfformiad sefydliadol.

**Colofn 4: Cyflawni/Perfformiad**
Mae'r golofn cyflawni a pherfformiad yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau, safonau perfformiad a llwybrau adfer gwasanaethau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. Mae'n ystyried a yw sefydliadau'n darparu mynediad amserol at ofal, yn bodloni disgwyliadau perfformiad cenedlaethol, ac yn gwella canlyniadau drwy ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. Mae'n cwmpasu gofal brys a gofal mewn argyfwng, gofal a gynlluniwyd, canser, diagnosteg, gofal sylfaenol, atal a safonau mynediad cenedlaethol eraill, wedi'u hategu gan gynlluniau adfer a gwella credadwy.

## 3.5 Un fersiwn o'r gwir

Mae'r trefniadau atebolrwydd wedi'u seilio ar egwyddor "un fersiwn o'r gwir". Bydd set ddata gyffredin, pecyn adrodd a storfa dystiolaeth yn cael eu defnyddio'n gyson ar draws Llywodraeth Cymru, Perfformiad a Gwella GIG Cymru a sefydliadau GIG Cymru.

Bydd y pecyn perfformiad a rennir yn:

- cynnwys mesurau craidd o ran ansawdd, y gweithlu, cyllid a chyflawni;
- cynnwys risgiau sefydliadol a chamau lliniaru;
- cefnogi trefniadau monitro a sicrwydd arferol;

- darparu'r sail dystiolaeth ar gyfer adolygiadau atebolrwydd, byrddau uwchgyfeirio a thrafodaethau teirochrog;
- lleihau dyblygu a threfniadau adrodd sy'n gwrthdaro.

Bydd y set ddata a rennir yn ddarostyngedig i safonau data a threfniadau llywodraethiant ac archwilio y cytunwyd arnynt, er mwyn cefnogi tryloywder a chysondeb.

## 3.6 Strwythur cyfarfodydd ac adrodd

Mae'r trefniadau atebolrwydd yn disodli'r trefniadau cyfarfodydd hanesyddol ar gyfer Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig a'r Cyd-dîm Gweithredol â strwythur atebolrwydd symlach sy'n seiliedig ar risg.

Mae'r strwythur atebolrwydd yn cynnwys:

| Rhyngwyneb | Diben | Cyfranogiad dangosol | Sail risg |
|---|---|---|---|
| Trefniadau sicrwydd gweithredol Perfformiad a Gwella GIG Cymru | Mae prosesau sicrwydd arferol Perfformiad a Gwella GIG Cymru gyda sefydliadau GIG Cymru yn darparu gwaith monitro, adolygu perfformiad a chymorth parhaus, ac yn gweithredu fel y prif ryngwyneb gweithredol ac adolygu ar draws y pedair colofn a'r maes sylfaen; cytunir ar gamau gweithredu a chymorth ar lefel weithredol. | Arweinwyr gweithredol Perfformiad a Gwella GIG Cymru a sefydliadau'r GIG. | Amlder yn gymesur â'r risg a'r lefel uwchgyfeirio. |
| Goruchwyliaeth Tîm Cyfarwyddwyr Gweithredol LIC a Thîm Uwch-gyfarwyddwyr Perfformiad a Gwella GIG Cymru | Fforwm goruchwylio misol ar gyfer y system gyfan sy'n gwneud y canlynol:<br>• adolygu perfformiad y sefydliad a'r system;<br>• nodi risgiau trawsbynciol;<br>• cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer trafodaethau ar atebolrwydd ac uwchgyfeirio. | Cyfarwyddwyr Gweithredol Llywodraeth Cymru a Thîm Uwch-gyfarwyddwyr Perfformiad a Gwella GIG Cymru | Adolygiadau rheolaidd ar lefel y system. |
| Cyfarfod adolygu atebolrwydd | Bydd sefydliadau'r GIG yn cymryd rhan mewn dau adolygiad atebolrwydd bob blwyddyn ni waeth beth fo'r statws uwchgyfeirio. Bydd y cyfarfodydd hyn yn asesu'r broses gyflawni ar draws pob colofn a'r maes sylfaen ac yn | Llywodraeth Cymru, Perfformiad a Gwella GIG Cymru ac arweinyddiaeth | Ddwywaith y flwyddyn ar gyfer pob un o sefydliadau GIG Cymru, ochr yn ochr â |

| Rhyngwyneb | Diben | Cyfranogiad dangosol | Sail risg |
|---|---|---|---|
| | darparu atebolrwydd ffurfiol rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau'r GIG. Gellir cynnal un adolygiad atebolrwydd y flwyddyn yn gyhoeddus. | sefydliadau'r GIG. | threfniadau sy'n seiliedig ar risg. |
| Bwrdd Uwchgyfeirio | Bydd sefydliadau ar lefelau 3 i 5 yn cymryd rhan mewn byrddau uwchgyfeirio. Bydd y rhain yn dal y sefydliadau i gyfrif ar gyfer adfer a chynnydd yn erbyn meini prawf isgyfeirio. | Llywodraeth Cymru, sefydliad y GIG ac arweinwyr perthnasol Perfformiad a Gwella GIG Cymru/arweinwyr cymorth. | Mae amlder yn cynyddu yn unol â lefel y risg a’r lefel uwchgyfeirio. |
| Asesiad teirochrog | Rhannu a phrofi tystiolaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei defnyddio i lywio argymhellion ffurfiol ynghylch uwchgyfeirio neu isgyfeirio. | Llywodraeth Cymru, Archwilio Cymru, AGIC a Perfformiad a Gwella GIG Cymru. | Ar adegau sydd wedi’u cynllunio, ac yn ychwanegol pan fydd pryderon difrifol yn codi. |

Mae Perfformiad a Gwella GIG Cymru, AGIC ac Archwilio Cymru yn darparu tystiolaeth a chyngor. Nid ydynt yn pennu statws uwchgyfeirio.

Ni chaiff trefniadau atebolrwydd statudol ar wahân eu newid na'u disodli gan y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd ac adrodd a ddisgrifir yn yr adran hon. Mae hyn yn cynnwys atebolrwydd Cadeiryddion i Weinidogion Cymru ac atebolrwydd prif weithredwyr, fel y Swyddogion Atebol dynodedig sy'n parhau i fod yn gyfreithiol gyfrifol am briodoldeb ariannol a chyflawniad gweithredol eu sefydliadau. Bydd Swyddogion Atebol yn parhau i adrodd i Brif Weithredwr GIG Cymru yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Llywodraeth Cymru.

## 3.7 Y gydberthynas â threfniadau uwchgyfeirio a chymorth

Mae'r trefniadau atebolrwydd yn darparu'r sylfaen ar gyfer y trefniadau uwchgyfeirio a chymorth a ddisgrifir yn y Fframwaith hwn.

Mae’r wybodaeth am berfformiad, ansawdd, y gweithlu, cyllid ac arweinyddiaeth a gynhyrchir drwy’r trefniadau atebolrwydd hyn yn llywio:

- penderfyniadau ar uwchgyfeirio ac isgyfeirio;
- cynllunio ymyriadau;
- defnyddio cymorth;

- defnyddio'r swyddogaeth Cymorth Dwys, Adfer a Gwyrdroi;
- asesu ymreolaeth a enillwyd.

Felly mae atebolrwydd, uwchgyfeirio a chymorth yn gweithredu fel un system integredig, gan sicrhau bod pryderon yn cael eu nodi'n gynnar, yr eir i’r afael â nhw mewn modd cymesur, a bod cymorth yn cael ei ddarparu drwy ymyriadau sy'n canolbwyntio ar wella lle bo angen.

# 4. Proses asesu a threfniadau teirochrog

## 4.1 Trefniadau teirochrog

Bydd Perfformiad a Gwella GIG Cymru, AGIC ac Archwilio Cymru yn cwrdd â Llywodraeth Cymru ddwywaith y flwyddyn (ac yn ychwanegol rhwng yr amseroedd hyn os bydd pryderon difrifol yn codi) i rannu gwybodaeth a nodi problemau'n gynnar er mwyn gallu eu datrys yn effeithiol. Gelwir y cyfarfod hwn yn gyfarfod teirochrog.

Gall amgylchiadau godi y tu allan i'r broses safonol lle mae angen gweithredu ar frys. Yn yr amgylchiadau hyn, cynhelir cyfarfod teirochrog eithriadol i ystyried y camau nesaf a chytuno ar y camau gweithredu priodol.

Mae'r broses deirochrog yn ddull ar gyfer rhannu tystiolaeth a darparu cyngor i Lywodraeth Cymru. Mae pob sefydliad sy'n cymryd rhan yn parhau i fod yn annibynnol ac yn cadw cyfrifoldeb am arfer ei swyddogaethau, ei bwerau a'i ddyletswyddau statudol ei hun.

| Cyfranogwr | Prif gyfraniad |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | Yn diffinio'r cwestiwn; yn casglu cyngor diduedd; yn profi goblygiadau o ran polisïau, statudol a system gyfan;  yn gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru. |
| Archwilio Cymru | Yn darparu tystiolaeth archwilio berthnasol a barn broffesiynol o fewn cylch gwaith yr Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'n benderfynwr teirochrog. |
| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | Yn darparu gwybodaeth arolygu a rheoleiddio am ddiogelwch, ansawdd, effeithiolrwydd a llywodraethiant o fewn ei chylch gwaith. Nid yw'n benderfynwr teirochrog. |
| Perfformiad a Gwella GIG Cymru | Yn casglu ac yn asesu sicrwydd gweithredol, dadansoddiadau o dueddiadau, asesiadau o allu sefydliadol, cynnydd yn erbyn gweithgarwch cymorth ac adfer, a gwybodaeth berthnasol am welliant. Nid yw'n benderfynwr teirochrog. |

## 4.2 Tystiolaeth a barn

Mae'n hanfodol bod yr ystod lawn o wybodaeth a thystiolaeth berthnasol a chywir (gan gynnwys data meintiol a gwybodaeth ansoddol) yn cael ei hystyried fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Bydd gwybodaeth yn cael ei thynnu o amrywiaeth o ffynonellau gwahanol, gan sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei thriongli i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau cadarn.

Mae asesu'n cyfuno tystiolaeth feintiol â barn ansoddol. Ni ddylai un metrig ar ei ben ei hun fel arfer bennu'r statws, oni bai ei fod yn dangos risg uniongyrchol a sylweddol. Bydd yr asesiad yn ystyried y canlynol:

- difrifoldeb a’r effaith bosibl ar bobl, gwasanaethau, cyllid a hyder y cyhoedd;
- graddfa, amlder, parhad a chyfeiriad y sefyllfa;

- a yw'r materion yn rhai unigol, ailadroddus, systemig neu'n ymwneud â sawl colofn;
- ansawdd a hygrededd sicrwydd y Bwrdd a gwybodaeth reoli;
- cydnabyddiaeth y sefydliad o'r pryder a chyflymder yr ymateb;
- gallu, capasiti a'r hyblygrwydd i adfer;
- hygrededd, adnoddau a chyflawni cynlluniau adfer;
- dibyniaethau rhanbarthol a chenedlaethol, a dibyniaethau ar gomisiynu a phartneriaid;
- tystiolaeth archwilio, arolygu, adolygu a rheoleiddio annibynnol;
- cymorth ac ymyriadau blaenorol, a ph'un a gafodd y gwelliant ei gynnal.

Bydd y dystiolaeth yn:

- cael ei fframio o amgylch y golofn/maes perthnasol;
- gofynnir i bob cyfranogwr gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig, gan wahaniaethu'n glir rhwng ffeithiau, barn a gwybodaeth sydd â chafeatau;
- a chaiff ei syntheseiddio gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys ystyriaethau o ran cydraddoldeb, y gyfraith, cyllid a sicrwydd y cyhoedd lle bo hynny'n berthnasol.

Yn dilyn cyfarfodydd teirochrog, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ystod o wybodaeth a thystiolaeth cyn gwneud argymhellion i Weinidog y Cabinet dros Iechyd a Gofal ynghylch statws uwchgyfeirio sefydliad y GIG. Bydd hyn yn cynnwys rhesymeg a sylfaen dystiolaeth glir dros y camau uwchgyfeirio neu isgyfeirio ffurfiol arfaethedig. Bydd uwchgyfeirio anffurfiol i lefel 2 yn cael ei ystyried y tu allan i'r broses hon a bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar hynny. Gellir hefyd ystyried isgyfeirio awtomatig y tu allan i'r broses hon, a swyddogion Llywodraeth Cymru fydd yn penderfynu ar hynny, pan fo tystiolaeth glir bod sefydliadau'r GIG wedi bodloni meini prawf isgyfeirio mesuradwy y cytunwyd arnynt ymlaen llaw.

# 5. Dull uwchgyfeirio

## 5.1 Y dull cyffredinol

Mae uwchgyfeirio yn ymateb fesul cam a chefnogol i risg. Gall symud yn uniongyrchol i unrhyw lefel yn unôl â'r brys neu'r difrifoldeb. Fel arfer, dylid neilltuo statws ar lefel y golofn gyfan neu'r maes sylfaen, yn hytrach nag ar wahân ar gyfer nifer o ddangosyddion unigol. Mae uwchgyfeirio gwasanaeth penodol yn parhau i fod yn opsiwn pan fo'r pryder wedi'i ddiffinio'n glir, ond mae'n debygol y bydd hyn wedi'i gyfyngu i lefel 2.

Bydd yr uwchgyfeirio am gyfnod penodol, gyda disgwyliadau, cerrig milltir a phwyntiau adolygu wedi'u nodi'n glir fel y gellir dangos gwelliannau o fewn cyfnod rhesymol ac ystyried uwchgyfeirio pellach os na wneir cynnydd digonol.

## 5.2 Lefelau uwchgyfeirio

Mae pum lefel uwchgyfeirio o fewn y fframwaith hwn:

| Lefel | Disgrifydd | Trothwy | Ymateb craidd |
|---|---|---|---|
| 1 | Atebolrwydd arferol | Mae'r sefydliad yn gweithredu'n unol â'r cynllun ar y cyfan, mae ganddo drefniadau llywodraethiant effeithiol a gall reoli amrywiadau drwy'r trefniadau arferol. | Sicrwydd arferol; proses adrodd gyffredin; adolygiadau atebolrwydd; ymreolaeth a enillwyd. |
| 2 | Pryder datblygol: goruchwyliaeth a chymorth manylach | Mae'n annhebygol y gellir datrys risg ddatblygol neu risg barhaus drwy drefniadau arferol yn unig, ond mae gan y sefydliad y gallu a'r capasiti o hyd i adfer. | Asesiad sylfaenol; cynllun gwella lleol; gwaith monitro manylach; cymorth ataliol. |
| 3 | Pryder sylweddol: adfer ffurfiol | Pryder sylweddol mewn colofn/maes, neu nid yw camau gweithredu lefel 2 wedi sicrhau gwelliant digonol. | Fframwaith adfer ffurfiol; bwrdd uwchgyfeirio; cerrig milltir; cymorth wedi'i dargedu gan Perfformiad a Gwella GIG Cymru; adolygiad annibynnol lle bo angen. |
| 4 | Ymyriadau a Chymorth | Methiant neu risg ddifrifol sy'n gofyn am ymyriad wedi'i gomisiynu a chapasiti, gallu neu gymorth sylweddol o'r tu allan i wyrdroi. | Mandad ymyrryd ffurfiol (y swyddogaeth Cymorth Dwys, Adfer a Gwyrdroi); cynllun gwella integredig; goruchwyliaeth agos. |
| 5 | Ymyriad dan gyfarwyddyd | Methiant difrifol neu gymhleth iawn lle nad yw gallu'r sefydliad | Ymyriad dan gyfarwyddyd; adfer dwys; defnydd posibl |

| Lefel | Disgrifydd | Trothwy | Ymateb craidd |
|---|---|---|---|
| | a chymorth dwys | yn ddigonol i adfer heb ymyriad allanol dwys, gan gynnwys pwerau statudol o bosibl. | o bwerau Gweinidogol; atebolrwydd gan y Bwrdd cyfan. |

## 5.3 Sbardunau uwchgyfeirio

Bydd y risg a'r cyd-destun ehangach yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ar uwchgyfeirio neu isgyfeirio. Nid yw uwchgyfeirio yn un broses sy'n addas i bawb. Nid oes lefel na phecyn penodedig o risg, cymorth na chraffu a fydd yn arwain yn awtomatig at asesiad y dylai un o sefydliadau'r GIG fod ar gam penodol o fewn y fframwaith.

Gall sbardunau uwchgyfeirio gynnwys:

- risg sylweddol neu uniongyrchol o niwed y mae modd ei osgoi;
- tystiolaeth ragfynegol o ddirywiad tebygol;
- nifer o ddangosyddion neu golofnau yn gwaethygu ar yr un pryd;
- methiant i liniaru risgiau sylweddol hysbys;
- gwendid perthnasol yn sicrwydd, diwylliant, arweinyddiaeth neu reolaethau’r Bwrdd;
- tystiolaeth o arolygiad, archwiliad, adolygiad neu ddigwyddiad sy'n dynodi pryder difrifol;
- methiant dro ar ôl tro i gyflawni camau gweithredu, cerrig milltir neu lwybrau y cytunwyd arnynt;
- sefyllfa ariannol neu fregusrwydd gwasanaeth sy'n bygwth cynaliadwyedd;
- dibyniaeth sylweddol o ran y system neu’r rhanbarth nad yw’n cael ei rheoli;
- ychydig iawn o welliant er gwaethaf cymorth priodol ac amser.

Mewn amgylchiadau lle mae rhai o elfennau cydgysylltiedig un o sefydliadau'r GIG yn arddangos heriau, mae'n fwy tebygol y bydd y penderfyniad i uwchgyfeirio yn canolbwyntio ar Arweinyddiaeth (Arwain yn Dda);  gan y gallai'r problemau fod yn symptom o broblemau ehangach.

| Lefel | Sbardunau enghreifftiol |
|---|---|
| Lefel 2 | Dirywiad ar draws mwy nag un metrig; mae gwybodaeth ragfynegol yn nodi risg ddatblygol. |
| Lefel 3 | Methiant trefniadau cymorth lefel 2 i sicrhau gwelliant; methu cerrig milltir dro ar ôl tro; sefyllfa sy'n gwaethygu ar draws nifer o fetrigau. |
| Lefel 4 | Methiant trefniadau adfer lefel 3; y gallu sefydliadol yn annigonol i gyflawni adferiad heb ymyriad allanol sylweddol. |
| Lefel 5 | Methiant trefniadau ymyrryd lefel 4; methiant sefydliadol difrifol neu risg sylweddol o fethiant sy'n gofyn am fesurau eithriadol. |

Mae'r tablau sbardunau uwchgyfeirio a ddarperir yn yr atodiadau ar gyfer pob colofn atebolrwydd a maes sylfaen arweinyddiaeth yn ganllaw dangosol i'r mathau o bryderon a allai arwain at uwchgyfeirio ym mhob maes. Eu bwriad yw cefnogi proses gwneud penderfyniadau gyson, dryloyw, sy’n seiliedig ar dystiolaeth. Ni fydd penderfyniadau ar uwchgyfeirio yn seiliedig ar fesurau unigol neu ddigwyddiadau sbarduno yn unig, ond ar asesiad cyffredinol o risg, gallu'r sefydliad, trywydd gwella, a difrifoldeb a pharhad y pryderon.

## 5.4 Uwchgyfeirio Lefel 2

Mae Lefel 2 yn berthnasol lle mae'n annhebygol y gellir datrys risg ddatblygol neu risg barhaus drwy drefniadau arferol yn unig, ond mae gan y sefydliad y gallu a’r capasiti o hyd i adfer.

Swyddogion Llywodraeth Cymru fydd yn penderfynu a ddylid uwchgyfeirio i lefel 2 neu oddi ar y lefel hon, ar sail tystiolaeth, ymgysylltu â'r sefydliad a gwybodaeth berthnasol gan bartneriaid.

Gellir nodi pryderon drwy atebolrwydd arferol, adolygiad gan Perfformiad a Gwella GIG Cymru, adroddiadau’r Bwrdd, tystiolaeth archwilio neu arolygu, digwyddiadau difrifol, dirywiad mewn perfformiad neu hysbysiad uniongyrchol gan y sefydliad.

Dylai'r sefydliad dynnu sylw at risgiau perthnasol yn gynnar, datgan y dulliau arfaethedig o ymdrin â nhw, a nodi unrhyw waith cymorth, adolygu neu ddiagnostig gofynnol.

Gall Llywodraeth Cymru a Perfformiad a Gwella GIG Cymru ofyn am ragor o dystiolaeth a, lle bo angen, gomisiynu adolygiad byr, penodol gyda'r sefydliad a phartneriaid perthnasol.

Os caiff pryder lefel 2 ei gadarnhau, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r sefydliad yn ysgrifenedig, yn cadarnhau'r disgwyliadau a'r cymorth, ac yn cytuno ar y llwybr adolygu a'r dystiolaeth ofynnol er mwyn dychwelyd i atebolrwydd arferol. Bwriad y cam hwn yw osgoi cyrraedd y trothwy ar gyfer lefel 3 neu uwch.

Gall sefydliad ar lefel 2 ddisgwyl y canlynol:

- Gwaith craffu ychwanegol neu gyfarfodydd adolygu amlach.
- Mynediad at gymorth gwella Perfformiad a Gwella GIG Cymru.
- Dysgu gan gymheiriaid a chyngor arbenigol.
- Ffocws ar atal dirywiad pellach.
- Bydd yn cadw cyfrifoldeb am ddylunio a chyflawni gwelliant.

Bwriad Lefel 2 yw darparu cymorth wedi'i dargedu a goruchwyliaeth fanylach lle mae'r pryderon datblygol yn awgrymu nad yw'r trefniadau atebolrwydd arferol ar eu pen eu hunain yn debygol o sicrhau'r gwelliant gofynnol.

## 5.5 Uwchgyfeirio i lefel 3 ac uwch

**Lefel 3**
Mae Lefel 3 wedi'i bwriadu ar gyfer sefydliadau sy'n wynebu pryderon lle nad yw cymorth estynedig wedi cyflawni gwelliant digonol, gan olygu bod angen dull adfer ffurfiol, craffu manylach, ac ymyriad strwythuredig i adfer perfformiad cynaliadwy.

Byddai Lefel 3 yn berthnasol lle ceir pryderon sylweddol ynghylch un o'r colofnau atebolrwydd neu'r maes sylfaen neu lle nad yw cymorth lefel 2 wedi sicrhau'r gwelliant gofynnol, gan olygu bod angen dull adfer ffurfiol gyda mwy o ymyrryd, atebolrwydd a monitro.

Os yw sefydliad wedi bod yn cael cymorth lefel 2, gallai gael ei uwchgyfeirio i lefel 3 os oes tystiolaeth o'r canlynol:

- Ychydig iawn o welliant neu ddim gwelliant o gwbl yn dilyn cyfnod penodol o gymorth lefel 2;
- Methu â chyflawni cerrig milltir y cytunwyd arnynt;
- Risgiau'n cynyddu er gwaethaf goruchwyliaeth fanylach;
- Safle sy'n gwaethygu;
- Gofyniad cynyddol am gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru neu gymorth ffurfiol drwy'r swyddogaeth Cymorth Dwys, Adfer a Gwyrdroi a ddarperir gan Perfformiad a Gwella GIG Cymru.

Gall sefydliadau ar lefel 3 ddisgwyl y canlynol:

- Disgwyliadau penodol o ran adferiad ffurfiol;
- Llwybr adfer a cherrig milltir y cytunir arnynt;
- Cymorth i gynnal adolygiadau diagnostig neu adolygiadau llywodraethiant;
- Cymorth i wella;
- Gofynion adrodd a monitro ychwanegol;
- Mwy o her o ran cyflymder a chyflawni gwelliannau.

**Lefel 4**

Mae Lefel 4 wedi'i bwriadu ar gyfer sefydliadau sydd â risg uchel o fethiant sefydliadol, sy'n gofyn am ymyriad sylweddol gan Lywodraeth Cymru, trefniadau adfer dwys a chymorth allanol sylweddol.

Gall sbardunau ar gyfer uwchgyfeirio i lefel 4 gynnwys:

- Methiant trefniadau adfer lefel 3 i sicrhau gwelliant ystyrlon;
- Methu'r llwybr adfer dro ar ôl tro;
- Risgiau'n parhau i gynyddu er gwaethaf y cymorth a ddarparwyd;
- Tystiolaeth bod gallu presennol y sefydliad yn annigonol i sicrhau adferiad;
- Pryderon yn cynyddu ar draws meysydd ychwanegol sy'n gofyn am ymyriad cryfach;
- Canfyddiadau arwyddocaol gan Archwilio Cymru, AGIC neu adolygiadau annibynnol;
- Methiannau gwasanaeth o arwyddocâd cenedlaethol;
- Pryderon difrifol ynghylch enw da neu hyder y cyhoedd sy'n effeithio ar allu'r sefydliad i weithredu'n effeithiol.

Gall sefydliadau ar lefel 4 ddisgwyl y canlynol:

- Adolygiadau uwchgyfeirio ffurfiol rheolaidd;
- Cerrig milltir cymorth ac adfer gorfodol;
- Gofynion adrodd ychwanegol;
- Mwy o oruchwyliaeth a her gan Lywodraeth Cymru;
- Cymorth a gwyliadwriaeth ychwanegol gan Perfformiad a Gwella GIG Cymru
- Monitro cynnydd adfer yn ffurfiol.

**Lefel 5**
Mae Lefel 5 wedi'i chadw ar gyfer amgylchiadau eithriadol ac mae'n gymwys lle ceir methiant sefydliadol difrifol, neu risg ddifrifol ac uniongyrchol o fethiant sefydliadol, i'r fath raddau fel nad yw'r trefniadau adfer ac ymyrryd presennol yn ddigonol. Mae'n ofynnol i sefydliadau ar lefel 5 gael y lefel uchaf o oruchwyliaeth, ymyrryd a chymorth, gan gynnwys o bosibl defnyddio pwerau ymyrryd statudol a gwneud newidiadau sylfaenol i'r trefniadau llywodraethiant, arweinyddiaeth neu weithredu.

Mae Lefel 5 yn fwy tebygol o gael ei sbarduno gan ddyfarniad cyffredinol bod gallu'r sefydliad, ei drefniadau llywodraethiant a'i drefniadau adfer wedi methu, gan greu risg annerbyniol i gleifion, gwasanaethau neu arian cyhoeddus, yn hytrach na chan fethiannau mewn colofnau neu fetrigau unigol.

Gall sbardunau ar gyfer uwchgyfeirio i lefel 5 gynnwys:
- Methiant ymyriad lefel 4 a threfniadau gwyrdroi;
- Dim gobaith realistig o adfer o dan y trefniadau presennol;
- Risgiau'n cynyddu er gwaethaf cymorth allanol sylweddol;
- Methiant parhaus i roi'r camau adfer gofynnol ar waith;
- Tystiolaeth glir bod angen ymyriad mwy sylfaenol;
- Methiant gwasanaeth, trefniadau llywodraethiant neu ddiogelwch o arwyddocâd cenedlaethol;
- Amgylchiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol ystyried pwerau ymyrryd statudol o dan adrannau 26-29 o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006;
- Colli hyder y cyhoedd yn y sefydliad yn ddifrifol;
- Methiant sefydliadol ynghyd â goblygiadau sylweddol o ran darparu gwasanaethau ehangach GIG Cymru.

Gall sefydliadau ar lefel 5 fod yn destun y canlynol:
- Goruchwyliaeth weinidogol fanylach;
- Trefniadau ymyrryd ffurfiol o dan adrannau 26-29 o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006 lle bo hynny'n briodol;
- Adolygu cynnydd a risgiau'n rheolaidd iawn;
- Cerrig milltir adfer a gofynion cyflawni gorfodol;
- Trefniadau atebolrwydd ychwanegol ar gyfer arweinwyr y sefydliad;
- Ystyried newidiadau i'r trefniadau llywodraethiant, arweinyddiaeth neu sefydliadol lle bo angen.

Sefydliadau ar Lefel 5 fydd yn cael y lefel uchaf o gymorth, goruchwyliaeth ac ymyriadau. Bydd y cymorth yn canolbwyntio ar sefydlogi'r sefydliad, mynd i'r afael â risgiau difrifol i ansawdd, perfformiad, y gweithlu, cyllid neu drefniadau llywodraethiant, ac adfer gallu sefydliadol cynaliadwy drwy drefniadau adfer dwys, sicrwydd annibynnol a chymorth cenedlaethol cydlynol.

## 5.6 Uwchgyfeirio'r sefydliad cyfan

Gellir ystyried uwchgyfeirio sefydliad cyfan pan fo'r pryderon yn cwmpasu sawl colofn atebolrwydd neu'r maes sylfaen; pan fo methiant o ran arweinyddiaeth, llywodraethiant neu strwythur yn atal adferiad dibynadwy ar draws y sefydliad; neu pan fo un pryder difrifol – yn enwedig niwed helaeth y mae modd ei osgoi, marwolaethau gormodol neu anesboniadwy,

neu risg uniongyrchol a sylweddol i ddiogelwch cleifion – yn dangos methiant sefydliadol systemig neu'n golygu bod angen ymyrryd ar draws y sefydliad.

Ni ddylai nifer y colofnau yr effeithir arnynt oedi'r broses uwchgyfeirio pan fo difrifoldeb, graddfa, parhad neu drywydd y niwed yn golygu bod angen gweithredu ar frys.

## 5.7 Penderfyniadau ar uwchgyfeirio

Bydd sefydliadau'r GIG yn cael hysbysiad ysgrifenedig yn rhoi gwybod am unrhyw newid i lefelau uwchgyfeirio ac yn nodi'r lefel, y cwmpas a'r rhesymau. Bydd fframwaith uwchgyfeirio penodol i'r sefydliad hefyd yn nodi'r gofynion, y cymorth, y llwybr monitro a'r meini prawf isgyfeirio.

Bydd pob penderfyniad ynghylch uwchgyfeirio hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a gallai fod yn destun datganiad ysgrifenedig neu lafar.

## 5.8 Fframweithiau uwchgyfeirio penodol i sefydliadau

Yn dilyn penderfyniad i uwchgyfeirio sefydliad, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu fframwaith uwchgyfeirio penodol i'r sefydliad gan ymgysylltu â Perfformiad a Gwella GIG Cymru a thîm gweithredol y sefydliad. Ar gyfer pob uwchgyfeiriad ffurfiol ar lefel 2 neu uwch, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi fframwaith uwchgyfeirio cryno sy'n cynnwys y canlynol:

- cwmpas a lefel;
- tystiolaeth a rhesymeg;
- nifer bach o feysydd blaenoriaeth lle mae angen gwelliant;
- canlyniadau gwella, cerrig milltir ac amserlenni clir;
- y dull cefnogi ac ymyrryd;
- nifer bach o feini prawf isgyfeirio diffiniedig, gan gynnwys y dystiolaeth sydd ei hangen i ddangos gwelliant parhaus, y cyfnod y mae'n rhaid cyflawni'r gwelliant ynddo, a pha mor hir y mae'n rhaid cynnal hyn;
- canlyniadau clir os na chyflawnir gwelliant ar y raddfa neu'r cyflymder disgwyliedig, gan gynnwys uwchgyfeirio'r sefyllfa ymhellach, ymyriadau cryfach neu ystyried camau gweithredu ffurfiol ychwanegol.

Gellir rhoi fframweithiau uwchgyfeirio ar waith drwy ddefnyddio cyfarwyddydau Gweinidogol neu bwerau statudol perthnasol eraill lle bo'n briodol. Lle mae pryderon difrifol neu barhaus yn parhau, gall y fframwaith uwchgyfeirio hefyd gynnwys dull ymyrryd fesul cam. Gall hyn gynnwys cam asesu cychwynnol i gadarnhau achosion sylfaenol y pryder, ac yna cam cyflawni sy'n canolbwyntio ar roi'r newidiadau gofynnol ar waith.

Bydd pob fframwaith uwchgyfeirio sy’n benodol i sefydliad yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a dylid ei rannu â Bwrdd y sefydliad GIG, a dylai’r bwrdd ei fonitro’n rheolaidd.

# 6. Rolau, cyfrifoldebau a threfniadau llywodraethiant

## 6.1 Egwyddorion

Mae'r egwyddorion canlynol yn sail i weithrediad y Fframwaith hwn, gyda diogelwch, profiad a chanlyniadau cleifion a phoblogaethau fel y brif ystyriaeth:

- Diogelwch cleifion ac ansawdd yn gyntaf: Bydd pob penderfyniad, gweithred a defnydd o adnoddau yn blaenoriaethu atal niwed y mae modd ei osgoi, lleihau anghydraddoldebau, a gwelliant mesuradwy o ran diogelwch, effeithiolrwydd a phrofiad gofal.
- Camau cynnar, cymesur a phendant: bydd risgiau datblygol yn cael eu nodi, eu rhannu ac yn destun camau gweithredu cyn gynted â phosibl; bydd difrifoldeb, graddfa neu lwybr y niwed yn pennu'r ymateb, ac ni fydd camau brys yn cael eu gohirio oherwydd prosesau na throthwyon rhifiadol.
- Un system, diben a rennir: bydd Llywodraeth Cymru, Perfformiad a Gwella GIG Cymru, sefydliadau'r GIG a chyrff sicrwydd allanol yn cydweithio o fewn eu rolau statudol penodol, gan gysoni gwybodaeth, her a chymorth o amgylch canlyniadau gwella y cytunwyd arnynt.
- Dysgu a gwella ar draws GIG Cymru: bydd tystiolaeth gan gleifion, teuluoedd, staff, ac o ddigwyddiadau, cwynion, archwiliadau, arolygiadau a gweithgarwch gwella yn cael ei defnyddio i ddeall yr achosion sylfaenol, lledaenu arferion effeithiol ac atal problemau rhag digwydd eto o fewn sefydliadau ac ar draws sefydliadau.
- Effaith a chanlyniadau cynaliadwy: bydd cynnydd yn cael ei farnu, nid yn unig yn ôl camau gweithredu neu gerrig milltir a gwblhawyd, ond yn ôl gostyngiadau amlwg mewn niwed, canlyniadau a phrofiadau gwell, gallu cryfach a thystiolaeth bod gwelliannau wedi'u hymgorffori a'u cynnal.
- Bod yn agored, didwylledd a her adeiladol: bydd atebolrwydd, uwchgyfeirio, cymorth ac adferiad yn cael eu cynnal mewn modd tryloyw, gan amlygu cyd-barch a diogelwch seicolegol, a chan sicrhau y gellir mynegi pryderon yn ddi-oed a rhoi ystyriaeth onest i dystiolaeth heriol.
- Perchnogaeth a chanlyniadau clir: bydd cyfrifoldebau, hawliau gwneud penderfyniadau, amserlenni a chanlyniadau disgwyliedig yn glir ar bob lefel, gyda Byrddau'n parhau i fod yn atebol am welliant a chanlyniadau clir lle nad yw risgiau'n cael eu rheoli neu lle nad oes digon o gynnydd yn cael ei wneud.
- Llais cleifion, y cyhoedd a staff: bydd profiadau a gwybodaeth pobl sy'n cael ac yn darparu gofal yn llywio asesiadau, blaenoriaethau gwella, penderfyniadau ar uwchgyfeirio, a dyfarniadau o ran a yw adferiad wedi'i gyflawni.

## 6.2 Cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru

Yn Llywodraeth Cymru, mae swyddogaethau o dan y fframwaith hwn yn cael eu harfer gan Weinidogion Cymru neu gan swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gweithredu ar eu rhan yn unol â threfniadau llywodraethiant sefydledig. Mae Gweinidogion Cymru yn parhau i fod yn atebol am benderfyniadau a wneir o dan y fframwaith.

Gweinidogion Cymru:

- Gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer GIG Cymru.
- Pennu penderfyniadau ffurfiol ynghylch uwchgyfeirio ac ymyrryd.
- Arfer pwerau statudol lle bo angen.
- Rhoi sicrwydd ac atebolrwydd i'r Senedd a'r cyhoedd.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y canlynol:

- darparu cyngor ac asesiadau i gefnogi penderfyniadau gweinidogol;
- gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag uwchgyfeirio i lefel 2 neu isgyfeirio awtomatig lle bo'n briodol;
- parhau i oruchwylio sefydliadau GIG Cymru a chael sicrwydd ynghylch arweinyddiaeth y sefydliad, perfformiad/cyflawni, ansawdd, y gweithlu, cyllid/cynllunio;
- gosod disgwyliadau, gofynion gwella a meini prawf isgyfeirio;
- sefydlu strwythurau ffurfiol ar gyfer monitro, adolygu ac adrodd ar gynnydd;
- comisiynu trefniadau cymorth, ymyrryd ac adfer;
- adolygu tystiolaeth a gyflwynir;
- hwyluso'r broses o rannu arferion da a dysgu ar draws sefydliadau GIG Cymru;
- cefnogi sefydliadau i fynd i'r afael â materion allweddol, gan gynnwys ailgynllunio gwasanaethau, cynllunio rhanbarthol, seilwaith digidol ac ystadau;
- cyhoeddi gwybodaeth am statws uwchgyfeirio a chynnydd lle bo hynny'n briodol.

O fewn Llywodraeth Cymru:

- Cyfarwyddwr Cyffredinol / Prif Weithredwr GIG Cymru ac uwch-gyfarwyddwyr Llywodraeth Cymru: Darparu cyfeiriad strategol a chyngor diduedd; arwain trefniadau atebolrwydd ac uwchgyfeirio cynnydd fel y'u dirprwywyd; sicrhau mewnbwn cydlynol polisi, materion proffesiynol, cyllid a chyflawni; comisiynu cymorth o fewn yr awdurdod y cytunwyd arno.
- Polisi Llywodraeth Cymru ac arweinwyr proffesiynol: Gosod safonau a disgwyliadau; darparu arbenigedd yn y maes; cyfrannu'n gymesur at asesiadau; osgoi dyblygu'r rhyngwyneb gweithredol.

## 6.3 Perfformiad a Gwella GIG Cymru

Bydd Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn gweithredu fel y prif ryngwyneb sicrwydd gweithredol a gwella rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau'r GIG. Mae Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn gyfrifol am y canlynol:

- cydlynu trefniadau perfformiad a sicrwydd arferol;
- cynnal sylfaen dystiolaeth gyffredin i gefnogi prosesau asesu ac atebolrwydd;
- hyrwyddo a lledaenu arferion gorau i gefnogi gwelliant sefydliadol;
- nodi risgiau datblygol a meysydd lle mae angen cymorth;
- cydlynu cymorth gwella wedi'i dargedu;
- cynnal neu gydlynu diagnosteg, adolygiadau ac asesiadau;
- cefnogi sefydliadau i ddatblygu cynlluniau adfer a gwella;
- adolygu a rhoi adborth ar gynlluniau adfer a gwella;
- monitro'r broses o gyflawni'r camau gweithredu a'r cerrig milltir y cytunwyd arnynt;
- darparu tystiolaeth i gefnogi trefniadau atebolrwydd, uwchgyfeirio a theirochrog;
- cydlynu'r gwaith o ddefnyddio a rhoi'r swyddogaeth Cymorth Dwys, Adfer a Gwyrdroi ar waith pan gaiff ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru;
- hyrwyddo'r broses o ddysgu drwy systemau a lledaenu arferion effeithiol ar draws GIG Cymru.

## 6.4 Cyfrifoldebau Sefydliadau GIG Cymru

Mae byrddau'n parhau i fod yn gyfrifol yn y pen draw am ansawdd, perfformiad, y gweithlu, stiwardiaeth ariannol a threfniadau llywodraethiant eu sefydliad ni waeth beth fo'i statws uwchgyfeirio.

Rhaid i bob un o sefydliadau'r GIG wneud y canlynol:

- cydnabod a chynyddu risgiau sylweddol yn gynnar;
- ymgysylltu'n agored ac yn dryloyw â Llywodraeth Cymru, Perfformiad a Gwella GIG Cymru a chyrff sicrwydd allanol;
- darparu gwybodaeth a thystiolaeth amserol a chywir;
- datblygu a chyflawni cynlluniau gwella ac adfer effeithiol;
- cynnal trefniadau llywodraethiant a sicrwydd cadarn;
- cynnal gwelliannau a gyflawnwyd drwy drefniadau cymorth ac ymyrryd.

Pan fydd sefydliad yn destun proses uwchgyfeirio ffurfiol (lefel 3 neu uwch), rhaid iddo hefyd wneud y canlynol:

- penodi Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer pob colofn, maes neu ymyriad sydd wedi'i uwchgyfeirio;
- sicrhau bod y Bwrdd yn berchen ar weithgarwch adfer a gwella;
- sefydlu strwythurau llywodraethiant clir i oruchwylio'r gwaith o gyflawni;
- darparu adroddiadau a thystiolaeth reolaidd sy'n dangos cynnydd;
- dyrannu digon o adnoddau sefydliadol i gyflawni'r canlyniadau gofynnol;
- sicrhau bod y meini prawf isgyfeirio yn cael eu monitro a'u cyfleu i'r Bwrdd.

## 6.5 Cadeiryddion, Prif Weithredwyr ac Uwch-swyddogion Cyfrifol

**Cadeirydd y Bwrdd**

Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am y canlynol:

- sicrhau bod y Bwrdd yn goruchwylio, yn craffu ac yn herio'n adeiladol;
- parhau i oruchwylio risgiau sylweddol, perfformiad y sefydliad a chynlluniau adfer;
- rhoi sicrwydd am effeithiolrwydd trefniadau llywodraethiant ac atebolrwydd y sefydliad;
- ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar effeithiolrwydd y Bwrdd, trefniadau llywodraethiant, adferiad y sefydliad a chynnydd cyffredinol.

**Prif Weithredwr**

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am y canlynol:

- cyflawniad gweithredol, perfformiad y sefydliad a rhoi camau adfer ar waith;
- sicrhau bod y sefydliad yn ymateb yn brydlon i bryderon;
- sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu yn unol â strategaethau, polisïau a gweithdrefnau;
- sicrwydd ac adrodd i'r Bwrdd;
- cynnal cydberthynas effeithiol â Llywodraeth Cymru a Perfformiad a Gwella GIG Cymru;
- sicrhau bod capasiti a gallu'r sefydliad yn cyd-fynd â'r gofynion adfer.

**Uwch-swyddog Cyfrifol**

Ar gyfer pob trefniant uwchgyfeirio ffurfiol, dylid penodi Uwch-swyddog Cyfrifol. Dylai'r Uwch-swyddog Cyfrifol:

- arwain y gwaith o gyflawni'r fframwaith uwchgyfeirio a'r cynllun adfer;
- cydlynu'r dystiolaeth a'r adroddiadau ar gynnydd;
- rheoli risgiau a dibyniaethau;
- sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt;
- rhoi sicrwydd i'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru ynghylch cynnydd.

## 6.6 Cyfrifoldebau'r Swyddogaeth Cymorth Dwys, Adfer a Gwyrdroi

Pan gaiff ei chomisiynu, bydd y swyddogaeth Cymorth Dwys, Adfer a Gwyrdroi yn:

- ymgymryd â gweithgarwch asesu a diagnostig dwys;
- cefnogi'r gwaith o ddatblygu un Cynllun Gwella Integredig;
- cydlynu cymorth arbenigol ac arbenigedd ym maes adfer;
- darparu her, cymorth a sicrwydd ynghylch cyflawni;
- asesu gallu a chynaliadwyedd y sefydliad;
- cefnogi trefniadau pontio a throsglwyddo wrth i'r sefydliad symud tuag at drefniadau isgyfeirio.

Nid yw'r swyddogaeth Cymorth Dwys, Adfer a Gwyrdroi yn disodli atebolrwydd y Bwrdd. Sefydliad y GIG fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am gyflawni, oni bai bod trefniadau ymyrryd statudol yn pennu fel arall.

## 6.7 Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Mae Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cadw eu hannibyniaeth statudol. Mae eu rôl yn cynnwys:

- cyfrannu tystiolaeth a gwybodaeth berthnasol at brosesau atebolrwydd a theirochrog;
- tynnu sylw at risgiau, gwendidau a meysydd y mae angen eu gwella;
- llywio trafodaethau ynghylch uwchgyfeirio ac isgyfeirio lle bo hynny'n briodol;
- darparu sicrwydd annibynnol ynghylch trefniadau llywodraethiant, ansawdd, effeithiolrwydd a pherfformiad sefydliadau.

## 6.8 Atebolrwydd yn ystod trefniadau uwchgyfeirio

Ni fydd trefniadau uwchgyfeirio yn trosglwyddo atebolrwydd i ffwrdd o sefydliad y GIG. Drwy gydol unrhyw gyfnod o uwchgyfeirio:

- mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn gyfrifol am gyflawni a gwella;
- Llywodraeth Cymru sy'n parhau i fod yn gyfrifol am benderfyniadau ar uwchgyfeirio a goruchwylio;
- Perfformiad a Gwella GIG Cymru sy'n parhau i fod yn gyfrifol am sicrwydd a chymorth gweithredol;
- dylai'r trefniadau ymyrryd geisio cryfhau gallu'r sefydliad yn hytrach na'i ddisodli;
- dylid cymhwyso cymorth a her mewn ffordd gydlynol a chymesur.

# 7. Dull cymorth ac ymyrryd

## 7.1 Trosolwg

Diben y cymorth a'r ymyriad yw sicrhau gwelliant cynaliadwy o ran ansawdd, y gweithlu, cyllid, cynllunio, cyflawni ac arweinyddiaeth sefydliadol. Bydd y trefniadau cymorth ac ymyrryd yn cael eu cynllunio i ategu'r prosesau atebolrwydd ac uwchgyfeirio drwy gryfhau gallu'r sefydliad, cyflymu gwelliannau a lleihau'r risg i gleifion, gwasanaethau a hyder y cyhoedd.

Ni ddylid ystyried cymorth yn ganlyniad i uwchgyfeirio. Yn hytrach, dylid defnyddio cymorth ac ymyriadau mewn modd cymesur a chyn gynted â phosibl, er mwyn atal dirywiad, mynd i'r afael â phryderon datblygol, a chefnogi adferiad y sefydliad. Bwriedir i drefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd fod yn ddull fesul cam a chefnogol, gyda dwyster y cymorth yn cynyddu yn unol â'r risg sefydliadol a'r statws uwchgyfeirio.

## 7.2 Egwyddorion ar gyfer cymorth

Lle bo modd, bydd y trefniadau cymorth ac ymyrryd fel a ganlyn:

- Yn ataliol – nodi risgiau ac ymateb iddynt cyn bod angen uwchgyfeirio ymhellach.
- Yn gymesur – yn cyd-fynd â graddfa, difrifoldeb a pharhad pryderon.
- Wedi'u targedu – yn canolbwyntio ar y colofnau, y meysydd, y gwasanaethau neu'r materion sefydliadol penodol sydd angen eu gwella.
- Yn gydweithredol – yn cael eu cyflawni mewn partneriaeth â sefydliadau'r GIG a chyrff cenedlaethol perthnasol.
- Yn canolbwyntio ar ganlyniadau – wedi'u cynllunio i wella canlyniadau yn hytrach na chynyddu'r gwaith craffu yn unig.
- Am gyfnod penodol – gweithredu yn unol ag amcanion, cerrig milltir a phwyntiau adolygu y cytunwyd arnynt.
- Yn Integredig – yn cyd-fynd â fframweithiau uwchgyfeirio, cynlluniau adfer a meini prawf isgyfeirio.
- Yn dryloyw – cylch gorchwyl clir, allbynnau disgwyliedig a threfniadau o ran atebolrwydd.

Ar bob cam, Sefydliad y GIG fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am gyflawni, oni bai bod trefniadau ymyrryd statudol ffurfiol yn pennu fel arall.

Elfen hanfodol o welliant yw datblygu pecyn cymorth priodol a'i roi ar waith, sef pecyn sydd wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â'r materion neu'r risgiau sylfaenol ac wedi'i deilwra i gydnabod y cyd-destun penodol ac ymateb iddo.

Cydnabyddir mai'r cymorth pwrpasol a roddir ar waith fydd yn debygol o fod fwyaf effeithiol, yn enwedig ar gyfer sefydliadau ar lefelau ymyrryd is, pan fyddant yn rhan o'r gwaith o ddylunio'r pecyn a diffinio'r canlyniadau disgwyliedig neu'r dangosyddion llwyddiant. Bydd Perfformiad a Gwella GIG Cymru a'r bwrdd iechyd, ynghyd â Llywodraeth Cymru lle bo hynny'n briodol, yn cytuno ar y trefniadau penodol ar gyfer unrhyw becyn cymorth.

Dylai'r cymorth:

- gael ei ddiffinio ar yr un pryd â'r trefniadau uwchgyfeirio, nid fel ychwanegiad diweddarach;
- mynd i’r afael â'r achosion sylfaenol yn ogystal â'r symptomau;
- cael ei gofnodi'n glir, gan amlinellu'r cwmpas, yr awdurdod, y canlyniadau, yr adnoddau, y trefniadau llywodraethiant a'r meini prawf ymadael;
- bod am gyfnod penodol, wedi'i werthuso o ran effaith ac wedi'i gydlynu er mwyn osgoi dyblygu.

## 7.3 Cymorth sy'n cyfateb i'r lefel uwchgyfeirio

**Lefel 1: Atebolrwydd Arferol**
Mae cynnig gwella safonol GIG Cymru ar gael i sefydliadau sy'n gweithredu o dan drefniadau atebolrwydd arferol.

Gall y cymorth gynnwys:

- cyfleoedd i gymryd rhan mewn rhaglenni cenedlaethol a rhwydweithiau clinigol;
- meincnodi a dysgu ar y cyd;
- cymunedau ymarfer;
- adnoddau a chanllawiau gwella;
- cymorth gan gymheiriaid a rhaglenni datblygu cenedlaethol.

Y pwyslais ar lefel 1 yw gwelliant parhaus ac ymreolaeth a enillwyd.

**Lefel 2**
Bwriad Lefel 2 yw nodi a mynd i'r afael â phryderon datblygol cyn bod angen uwchgyfeirio'r sefyllfa'n ffurfiol.

Gall y cymorth gynnwys:

- adolygiadau diagnostig wedi'u targedu;
- trefniadau cymorth gan gymheiriaid;
- cyngor a mentora;
- cymorth i wella sy'n benodol i'r gwasanaeth;
- arbenigedd gweithredol neu arbenigedd o ran y gweithlu, cyllid neu wella ansawdd.

Y nod yw osgoi'r angen i uwchgyfeirio'r sefyllfa'n ffurfiol drwy ddarparu cymorth wedi'i dargedu, gwaith monitro manylach ac ymyrryd yn gynnar.

**Lefel 3**
Mae Lefel 3 yn berthnasol lle mae'r pryderon yn fwy arwyddocaol, parhaus neu systemig a lle mae trefniadau adfer yn ofynnol. Ar lefel 3, disgwylir fel arfer i sefydliadau weithredu o fewn fframwaith adfer y cytunwyd arno, gyda chefnogaeth Perfformiad a Gwella GIG Cymru.

Gall y cymorth gynnwys:

- rhaglenni adfer strwythuredig;
- adolygiadau allanol;
- cynghorwyr gwella;
- cymorth i reoli rhaglenni ac adferiad;
- arbenigedd clinigol, y gweithlu, cyllid, cynllunio neu arbenigedd gweithredol;

- datblygu trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethiant;
- mwy o gymorth a her gan Perfformiad a Gwella GIG Cymru.

Bydd cymorth yn cael ei ddarparu yn unol ag amcanion adfer, cerrig milltir a meini prawf isgyfeirio y cytunwyd arnynt.

**Lefel 4**
Cymhwysir Lefel 4 pan fo pryderon difrifol a phan fydd Llywodraeth Cymru yn pennu bod angen ymyriad a chymorth allanol sylweddol ar sefydliadau i gyflawni adferiad.

Bydd cynnig ymyrryd safonol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob sefydliad sy'n gweithredu ar lefel 4. Bydd hyn fel arfer yn cael ei gydlynu drwy Perfformiad a Gwella GIG Cymru, a'i gyflawni drwy'r swyddogaeth Cymorth Dwys, Adfer a Gwyrdroi.

Gall y cymorth gynnwys:
- asesiad sefydliadol cynhwysfawr;
- rhaglenni ymyrryd wedi'u targedu;
- arbenigedd gwella a gwyrdroi wedi’i ymgorffori;
- cymorth arbenigol clinigol, gweithredol, ariannol neu o ran y gweithlu;
- cymorth rheoli rhaglenni;
- arbenigedd annibynnol allanol lle bo angen;
- trefniadau llywodraethiant a sicrwydd manylach;
- cymorth dwys sy'n cyd-fynd â chynlluniau adfer ac isgyfeirio.

Cytunir ar y cynnig o ran ymyrryd ar adeg uwchgyfeirio a’i gofnodi drwy fframwaith uwchgyfeirio, mandad ymyrryd neu gylch gorchwyl.

**Lefel 5: Ymyriad dan Gyfarwyddyd**
Mae Lefel 5 yn cynrychioli'r lefel ymyrryd uchaf lle ystyrir bod gallu sefydliad yn annigonol i gyflawni adferiad heb gymorth allanol sylweddol neu ymyriad statudol.

Gall y trefniadau cymorth gynnwys:
- defnydd llawn o'r swyddogaeth Cymorth Dwys, Adfer a Gwyrdroi;
- ymyriad a gomisiynir gan weinidogion;
- arbenigedd annibynnol allanol;
- rhaglenni adfer ar draws y sefydliad;
- ymyriadau arweinyddiaeth, llywodraethiant a diwylliannol wedi'u targedu;
- byrddau goruchwylio manylach;
- gweithgarwch adfer dan gyfarwyddyd a, lle bo angen, arfer pwerau statudol.

Bydd yr ymyriadau’n parhau i ganolbwyntio ar adfer gallu'r sefydliad, effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth a sicrhau gwelliant cynaliadwy mewn perfformiad.

## 7.4 Cymorth Dwys, Adfer a Gwyrdroi

Y Tîm Cymorth Dwys, Adfer a Gwyrdroi yw tîm arbenigol Perfformiad a Gwella GIG Cymru, sy'n gyfrifol am ddarparu cymorth dwys, help i adfer, a'r gallu i wyrdroi i sefydliadau y mae angen ymyriad sylweddol arnynt.  Y Tîm Cymorth Dwys, Adfer a Gwyrdroi yw craidd y cynnig ymyrryd ar gyfer sefydliadau sy’n gweithredu ar lefel 4 ac uwch.

Caiff y Tîm Cymorth Dwys, Adfer a Gwyrdroi ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru ac mae'n gweithredu o dan fandad diffiniedig, gydag amcanion, trefniadau llywodraethiant a threfniadau adrodd y cytunwyd arnynt. Sefydliad y GIG sy'n parhau i fod yn gyfrifol am gyflawni, oni bai bod trefniadau ymyrryd statudol yn pennu fel arall.

Mae amcanion y Tîm Cymorth Dwys, Adfer a Gwyrdroi fel a ganlyn:

- nodi achosion sylfaenol tanberfformiad sefydliadol;
- asesu gallu a chapasiti'r sefydliad;
- cefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth adfer gredadwy;
- cryfhau trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethiant y sefydliad;
- darparu arbenigedd a chymorth cyflawni;
- gwella gwydnwch a chynaliadwyedd y sefydliad;
- cefnogi'r gwaith o gyflawni gofynion isgyfeirio.

## 7.5 Trefniadau llywodraethiant a chomisiynu y Tîm Cymorth Dwys, Adfer a Gwyrdroi

Bydd y Tîm Cymorth Dwys, Adfer a Gwyrdroi fel arfer yn gweithredu drwy bum cam:

**Cam 1: Paratoi**

- cadarnhau’r mandad a’r trefniadau llywodraethiant;
- penodi arweinydd y Tîm Cymorth Dwys, Adfer a Gwyrdroi;
- adolygu'r dystiolaeth a'r asesiadau presennol;
- nodi gofynion sefydlogi uniongyrchol.

**Cam 2: Asesu**

- cynnal asesiad integredig ar draws y pedair colofn a'r parth sylfaen Arweinyddiaeth (Arwain yn Dda);
- nodi achosion sylfaenol a rhwystrau systemig;
- asesu'r arweinyddiaeth, y trefniadau llywodraethiant a gallu'r sefydliad;
- llunio canfyddiadau ac argymhellion yr asesiad.

**Cam 3: Cynllunio**

- datblygu neu fireinio un Cynllun Gwella Integredig;
- cysoni ymyriadau â gofynion uwchgyfeirio a meini prawf isgyfeirio;
- sefydlu cerrig milltir, mesurau a threfniadau llywodraethiant.

**Cam 4: Cymorth**

- defnyddio arbenigedd ac adnoddau gwella;
- cryfhau gallu a chapasiti'r sefydliad;
- cefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau adfer ac ymyriadau;
- monitro cynnydd yn unol â'r amcanion y cytunwyd arnynt.

**Cam 5: Pontio**

- asesu cynaliadwyedd y gwelliannau;
- rhoi sicrwydd ynghylch gallu'r sefydliad;
- paratoi adroddiad trosglwyddo;
- cefnogi'r broses o ddychwelyd i drefniadau arferol Perfformiad a Gwella GIG Cymru.

## 7.6 Fframweithiau ymyrryd a chynlluniau cymorth

Ar gyfer sefydliadau ar lefelau 3 i 5, dylai'r trefniadau cymorth ac ymyrryd penodol, ar ôl cytuno arnynt, gael eu cofnodi fel arfer drwy fframwaith ffurfiol y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru/Perfformiad a Gwella GIG Cymru ac sy'n nodi'r canlynol:

- amcanion a chanlyniadau disgwyliedig;
- trefniadau cymorth y cytunwyd arnynt;
- cwmpas yr ymyriad;
- trefniadau llywodraethiant;
- gofynion atebolrwydd ac adrodd;
- cerrig milltir a mesurau;
- meini prawf isgyfeirio;
- trefniadau adolygu a gwerthuso.

Dylai fframweithiau cymorth sefydlu cydberthynas glir rhwng gweithgarwch ymyrryd, y gwaith o gynllunio adferiad a'r broses isgyfeirio er mwyn sicrhau bod y cymorth yn parhau i ganolbwyntio ar welliant cynaliadwy.

Nid yw fframweithiau ymyrryd a chynlluniau cymorth yn disodli cyfrifoldebau statudol ac nid ydynt yn creu rhwymedigaethau y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol, oni bai eu bod wedi'u hategu gan bŵer statudol.

## 7.7 Gwerthuso ac ymadael

Dylai pob trefniant cymorth ac ymyrryd fod yn destun adolygiad rheolaidd gan Perfformiad a Gwella GIG Cymru.

Dylai'r gwerthusiad ystyried y canlynol:

- cyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt;
- gostyngiad mewn risg sefydliadol;
- cyflawni cerrig milltir adfer;
- cryfhau gallu a threfniadau llywodraethiant y sefydliad;
- tystiolaeth o welliant cynaliadwy;
- parodrwydd i bontio i lefel uwchgyfeirio is neu drefniadau atebolrwydd arferol.

Dim ond pan fydd digon o dystiolaeth bod y gwelliant wedi'i ymgorffori ac y gellir ei gynnal heb y lefel ymyrryd bresennol o ymyrryd allanol y dylid tynnu'r cymorth yn ôl.

# 8. Isgyfeirio ac ymreolaeth a enillwyd

## 8.1 Egwyddorion isgyfeirio

Mae isgyfeirio yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn adlewyrchu gwelliant cynaliadwy, yn hytrach na chwblhau camau gweithredu yn unig. Fel arfer bydd yn digwydd un lefel ar y tro, a bydd llai o oruchwylio ac adrodd ar bob cam.  Lle bo’r meini prawf yn glir, yn fesuradwy ac wedi’u cytuno arnynt ymlaen llaw, gellir ystyried isgyfeirio y tu allan i’r cylch penderfynu arferol.

Bydd sefydliadau'r GIG yn cael gwybod am y gofynion ar gyfer isgyfeirio cyn gynted â phosibl ar ôl y penderfyniad cychwynnol i uwchgyfeirio.  Bydd y gofynion hyn yn adlewyrchu'n agos y rhesymau dros uwchgyfeirio a/neu'r problemau sylfaenol a nodwyd fel rhan o unrhyw ymarfer diagnostig.

Gall y meysydd hynny â chanlyniadau a thargedau mesuradwy megis perfformiad a chanlyniadau gael eu hisgyfeirio pan gyflwynir tystiolaeth bod y meini prawf isgyfeirio wedi'u bodloni a'u cynnal am y cyfnod o amser y cytunwyd arno. Os bydd sefydliad GIG Cymru yn bodloni'r meini prawf isgyfeirio ar gyfer colofn benodol o dan yr amgylchiadau hynny, yna bydd yn cael ei isgyfeirio i'r lefel nesaf ar y raddfa uwchgyfeirio. Bydd yr isgyfeirio hwn yn digwydd yn awtomatig y tu allan i'r cylch uwchgyfeirio arferol, a bydd yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig i'r sefydliad a'i rannu'n ehangach drwy Ddatganiad Ysgrifenedig.

## 8.2 Prawf gofynnol ar gyfer isgyfeirio

Bydd y pwynt isgyfeirio wedi’i gyrraedd pan fydd y Bwrdd a'r Prif Swyddog Gweithredol yn gallu rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, fod cynnydd digonol wedi'i wneud ac y byddant yn gallu cynnal y gwelliannau.

Byddai angen sicrwydd ynghylch y canlynol:

- bod y canlyniadau diffiniedig a'r cerrig milltir craidd wedi'u cyflawni;
- bod y risg i ddiogelwch, darpariaeth, cyllid, y gweithlu neu gynaliadwyedd y sefydliad wedi lleihau i lefel dderbyniol;
- bod gwelliant wedi'i gynnal am y cyfnod a bennir yn y fframwaith uwchgyfeirio;
- bod gan y Bwrdd drefniadau goruchwylio effeithiol a thystiolaeth ddibynadwy;
- bod y cynlluniau’n gredadwy, bod adnoddau priodol wedi’u neilltuo ar eu cyfer, a'u bod wedi’u hintegreiddio i'r systemau rheoli arferol;
- bod gan y sefydliad y capasiti a’r gallu i gynnal y gwelliant heb y lefel bresennol o gymorth dwys;
- bod tystiolaeth neu sicrwydd annibynnol wedi'u hystyried lle bo hynny'n berthnasol;
- bod y risgiau gweddilliol, y dibyniaethau a'r trefniadau pontio yn glir.

## 8.3 Penderfyniad a chyfathrebu

Llywodraeth Cymru fydd yn gwneud unrhyw benderfyniad i isgyfeirio sefydliad, a bydd y penderfyniad hwnnw’n cael ei ategu gan asesiad o gynnydd sy’n seiliedig ar dystiolaeth gan Perfformiad a Gwella GIG Cymru, ynghyd â thystiolaeth gan y cyfranogwyr teirochrog. Bydd unrhyw newidiadau i'r trefniadau uwchgyfeirio yn cael eu cyfleu i sefydliadau yn ysgrifenedig a byddant yn cael eu diweddaru ar wefan Llywodraeth Cymru.

Fel arfer, bydd y broses isgyfeirio yn golygu symud i lefel nesaf y fframwaith uwchgyfeirio gyda llai o oruchwylio ac adrodd ar bob cam isgyfeirio. Ni fydd lefel 2 yn cael ei defnyddio wrth isgyfeirio sefydliadau o lefelau uwchgyfeirio uwch e.e. lefelau 3, 4 neu 5.

## 8.4 Ymreolaeth a enillwyd

Bydd sefydliadau sy'n dangos darpariaeth ddibynadwy, trefniadau llywodraethiant aeddfed a phroses rheoli risg dryloyw yn destun goruchwyliaeth lai dwys. Gall ymreolaeth a enillwyd gynnwys llai o faich o ran cyfarfodydd ac adrodd, mwy o hyblygrwydd ynghylch y ffordd y cyflawnir canlyniadau, llwybrau cymeradwyo cymesur a naratif atebolrwydd cadarnhaol. Nid yw ymreolaeth a enillwyd yn dileu dyletswyddau statudol na'r gofyniad i adrodd ar risgiau sylweddol yn brydlon.

# Atodiad A. Maes sylfaen Arweinyddiaeth (Arwain yn Dda)

## Disgrifiad a chwmpas

Mae'r maes sylfaen Arwain yn Dda (arweinyddiaeth, llywodraethiant a diwylliant) wedi'i ategu gan y fframwaith arweinir yn dda. Mae'n canolbwyntio ar ba un a yw Byrddau ac uwch-arweinwyr yn darparu cyfeiriad strategol clir, trefniadau llywodraethiant effeithiol, diwylliant sefydliadol cadarnhaol ac arweinyddiaeth weladwy sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion o ran ansawdd, y gweithlu, cyllid, cynllunio a pherfformiad. Mae'r maes sylfaen yn asesu, nid yn unig *beth* y mae sefydliad yn ei gyflawni, ond *pa mor dda y caiff ei arwain,* ei lywodraethu a'i reoli er mwyn sicrhau gwelliant cynaliadwy a chyflawni ei amcanion.

Mae digidol, data a thechnoleg yn cael eu cydnabod fel galluogwyr hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau, trawsnewid, gwella ac effeithiolrwydd sefydliadol. Bydd y maes hwn yn darparu'r prif lwybr ar gyfer asesu arweinyddiaeth ddigidol, trefniadau llywodraethiant, strategaeth, gallu sefydliadol, seiberwydnwch a'r gwaith o gyflawni rhaglenni digidol mawr.

Disgwylir i sefydliadau arddangos y canlynol:

- eu bod yn cael eu hysgogi gan ddiben a'u harwain gan werthoedd;
- bod ganddynt drefniadau arweinyddiaeth a llywodraethiant cryf ac integredig;
- bod ganddynt drefniadau rheoli risg effeithiol (gan gynnwys seiberddiogelwch);
- bod ganddynt hunanymwybyddiaeth onest a'u bod yn croesawu craffu allanol;
- eu bod yn meithrin diwylliannau agored, cynhwysol a seicolegol ddiogel;
- eu bod yn gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac egwyddorion moesegol;
- eu bod yn defnyddio galluogwyr digidol, data a deallusrwydd yn effeithiol;
- eu bod yn canolbwyntio ar welliant parhaus, ac nid ar sicrwydd yn unig;
- eu bod yn ymwybodol o'r system ac wedi mabwysiadu dull gweithredu sy'n edrych tuag allan;
- bod ganddynt drefniadau gweithio mewn partneriaeth effeithiol ac arweinyddiaeth gydweithredol; a'u
- bod yn defnyddio gwybodaeth, gwersi a ddysgwyd ac adborth i ysgogi gwelliannau cynaliadwy.

## Tystiolaeth graidd

Bydd yr asesiad yn tynnu ar y canlynol:

- hunanasesiad y Bwrdd a'r sefydliad;
- fframweithiau sicrwydd y Bwrdd a chofrestrau risg;
- adroddiadau Archwilio Cymru, AGIC ac archwilio mewnol;
- diwylliant sefydliadol a dangosyddion o ran codi llais;
- ymgysylltiad â staff a chanlyniadau arolygon staff;
- metrigau arweinyddiaeth a'r gweithlu;
- adolygiadau o drefniadau llywodraethiant a sicrwydd;
- strategaeth a llywodraethiant digidol;
- tystiolaeth o gyflawni yn unol ag amcanion y sefydliad a chynlluniau adfer.

## Sbardunau uwchgyfeirio enghreifftiol

| Lefel | Sbardunau enghreifftiol |
|---|---|
| Lefel 2 | Pryderon llywodraethiant datblygol; sicrwydd annigonol ynghylch cyflawni amcanion allweddol; ansefydlogrwydd o ran yr arweinyddiaeth; oedi wrth weithredu camau gweithredu y cytunwyd arnynt; diffyg strategaeth glir; pryderon ynghylch diwylliant y sefydliad. |
| Lefel 3 | Gwendidau llywodraethiant sylweddol; goruchwyliaeth aneffeithiol gan y Bwrdd; adolygiadau annibynnol sy'n nodi pryderon sylweddol ynghylch y trefniadau arweinyddiaeth neu lywodraethiant; strategaethau gwan neu wael; methiant dro ar ôl tro i gyflawni rhaglenni neu gamau gwella. |
| Lefel 4 | Methiant llywodraethiant difrifol sy'n effeithio ar berfformiad y sefydliad neu ganlyniadau cleifion; y Bwrdd yn methu dangos rheolaeth effeithiol; colli hyder yng ngallu'r arweinwyr; methiannau llywodraethiant parhaus er gwaethaf cymorth i adfer. |
| Lefel 5 | Methiant sylfaenol o ran trefniadau llywodraethiant; y Bwrdd yn methu â chyflawni cyfrifoldebau yn effeithiol; trefniadau arweinyddiaeth nad ydynt yn gallu sicrhau adferiad; ystyried ymyriad statudol. |

## Offer ac adnoddau

- Saith egwyddor bywyd cyhoeddus Nolan
- E-lawlyfr llywodraethu GIG Cymru
- Fframwaith Arwain yn Dda GIG Cymru (wrthi'n cael ei ddatblygu)
- Egwyddorion Arwain Tosturiol
- Canllaw Cryno i Lywodraethu Da ar gyfer Byrddau GIG Cymru
- Three lines of defence
- 15 steps programme
- Adnoddau arweinyddiaeth AaGIC
- Coeden Wybodaeth - Academi Cymru
- Matricsau aeddfedrwydd Arweinyddiaeth a Llywodraethiant (pan fyddant wedi'u datblygu)
- Dangosfwrdd diwylliant (pan fydd wedi'i ddatblygu)

## Enghreifftiau o gamau gweithredu a chymorth uwchgyfeirio

- Datblygu'r Bwrdd a chymorth effeithiolrwydd;
- Hyfforddiant neu fentora anweithredol neu weithredol;
- Adolygiad annibynnol Arwain yn Dda;
- Trefniadau cryfach ar gyfer rheoli risg, rhaglenni a sicrwydd;
- Penodi cynghorwyr arbenigol neu allu dros dro;
- Cymorth wedi'i dargedu i gadeiryddion, aelodau annibynnol a thimau gweithredol;

- Un cynllun gwella neu adfer ar draws y sefydliad, gyda chamau gweithredu clir, atebolrwydd wedi'i bennu, cerrig milltir, amserlenni a chanlyniadau mesuradwy;
- Mecanweithiau adolygu ffurfiol i fonitro'r gwaith o gyflawni camau gwella, profi tystiolaeth o effaith a sicrhau bod risgiau'n cael eu huwchgyfeirio'n briodol;
- Asesiad o arweinyddiaeth a'r sefydliad gan y Tîm Cymorth Dwys, Adfer a Gwyrdroi ar lefel 4+.

## Meini prawf isgyfeirio enghreifftiol

| Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 |
|---|---|---|
| • trefniadau arweinyddiaeth effeithiol a sefydlog;<br>• y bwrdd yn dangos gafael, her a sicrwydd tryloyw;<br>• wedi mynd i'r afael â risgiau sy'n ymwneud â diwylliant a chodi llais;<br>• strategaeth gredadwy sy'n cyd-fynd â gweledigaeth a gwerthoedd y sefydliad, gyda chynlluniau adfer integredig ar waith ac yn cael eu cyflawni;<br>• risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol ac yn lleihau i lefel y gellir ei rheoli;<br>• trefniadau llywodraethiant y cytunwyd arnynt ar gyfer partneriaethau allweddol sy'n gweithredu'n effeithiol;<br>• y gwelliannau wedi'u cynnal dros y cyfnod adolygu y cytunwyd arno. | • risgiau difrifol yn cael eu rheoli'n effeithiol, eu sefydlogi neu eu lleihau;<br>• y cynllun adfer neu wella integredig yn darparu effaith fesuradwy;<br>• ymyriad allanol wedi cryfhau gallu;<br>• y bwrdd a'r tîm gweithredol yn dangos rheolaeth gredadwy;<br>• ymgysylltiad adeiladol a rhagweithiol â phartneriaid system;<br>• sicrwydd annibynnol yn cefnogi llai o ymyrryd;<br>• gellir rheoli'r camau gweithredu sy'n weddill drwy lai o uwchgyfeirio a mwy o oruchwyliaeth. | • methiant sefydliadol difrifol neu risg uniongyrchol wedi'u rheoli'n effeithiol ac yn sefydlogi;<br>• nid oes angen ymyriad dan gyfarwyddyd na chamau statudol mwyach;<br>• y trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethiant yn amlwg yn effeithiol;<br>• tystiolaeth nad yw dibyniaethau rhanbarthol bellach yn cynrychioli risg sylweddol i gyflawni;<br>• mae gan y sefydliad y gallu i barhau i adfer o dan drefniadau lefel 4 neu is;<br>• wedi cytuno ar gynllun pontio;<br>• mae'r risgiau a'r mesurau diogelwch gweddilliol yn glir. |

# Atodiad B. Colofn ansawdd

## Disgrifiad a chwmpas

Mae'r golofn Ansawdd yn rhoi sicrwydd bod sefydliadau GIG Cymru yn gwella ansawdd a chanlyniadau'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Mae'n ystyried a yw gofal yn ddiogel, yn amserol, yn effeithiol, yn effeithlon, yn deg ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gynnwys ansawdd a diogelwch cleifion ehangach, gwasanaethau clinigol a gwasanaethau sy'n fregus neu mewn perygl.

Disgwylir i sefydliadau arddangos y canlynol:

- trefniadau llywodraethiant a gwneud penderfyniadau effeithiol;
- trefniadau clir ar gyfer llywodraethiant clinigol a goruchwylio gwasanaethau;
- systemau cadarn gan y Bwrdd a'i bwyllgorau i gefnogi goruchwyliaeth, sicrwydd a phrosesau uwchgyfeirio;
- rheolaethau dibynadwy i amddiffyn cleifion rhag niwed y mae modd ei osgoi;
- rheoli risgiau ansawdd yn effeithiol;
- triongli dangosyddion meintiol ac ansoddol ar gyfer ansawdd a diogelwch;
- dysgu o gŵynion a digwyddiadau;
- gwaith cydlynu effeithiol wrth drosglwyddo gofal;
- trefniadau diogelu cadarn;
- atebolrwydd clir am ansawdd, diogelwch a chanlyniadau ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir.

## Tystiolaeth graidd

Bydd yr asesiad yn tynnu ar y canlynol:

- fframweithiau sicrwydd y Bwrdd a chofrestrau risg;
- Adroddiadau AGIC ac archwilio mewnol;
- tystiolaeth o gyflawni yn unol ag amcanion y sefydliad a chynlluniau adfer;
- Mesurau ansawdd a phrofiad cenedlaethol;
- Gwybodaeth NQMS a digwyddiadau diogelwch cleifion;
- profiad y claf, cwynion a phryderon;
- archwiliadau clinigol ac amrywiadau mewn canlyniadau;
- tystiolaeth o adolygiadau allanol neu fewnol;
- asesiadau o wasanaethau bregus a chynaliadwyedd clinigol.

## Sbardunau uwchgyfeirio enghreifftiol

| Lefel | Sbardunau enghreifftiol |
|---|---|
| Lefel 2 | Dangosyddion ansawdd sy'n dirywio; pryderon datblygol ynghylch diogelwch cleifion;  cynnydd mewn digwyddiadau neu gŵynion; oedi wrth gyflawni camau gwella yn dilyn adolygiad neu arolygiad. |
| Lefel 3 | Dirywiad parhaus mewn canlyniadau ansawdd; pryderon sylweddol ynghylch diogelwch; digwyddiadau difrifol dro ar ôl tro; methiant gyflawni llwybrau gwella ansawdd y cytunwyd arnynt. |

| Lefel | Sbardunau enghreifftiol |
|---|---|
| Lefel 4 | Pryderon difrifol a systemig am ddiogelwch cleifion; canfyddiadau arwyddocaol yn sgil arolygiadau neu adolygiadau allanol; tystiolaeth o fethiannau ansawdd helaeth; dirywiad er gwaethaf cymorth ffurfiol i adfer. |
| Lefel 5 | Methiant difrifol a pharhaus o ran ansawdd ar draws nifer o wasanaethau; risg fawr o niwed y mae modd ei osgoi; pryder rheoleiddio eithriadol; anallu'r sefydliad i gynnal gofal diogel heb ymyriad sylweddol. |

### Offer ac adnoddau

- Fframwaith Ansawdd a Diogelwch y GIG
- Safonau Iechyd a Gofal
- Y ddyletswydd Ansawdd a'r ddyletswydd Gonestrwydd
- Gwrando ar Bobl: Proses cwynion, digwyddiadau ac iawn GIG Cymru ar gyfer sefydliadau
- 15 steps programme
- Canolfan Gwerth mewn Iechyd
- Adnoddau - Perfformiad a Gwella GIG Cymru
- Asesiad Sicrwydd Mamolaeth a Newyddenedigol Cenedlaethol - Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru
- Fframwaith a Llawlyfr Llywodraethiant Clinigol GIG Cymru (pan fyddant wedi'u cyhoeddi)

## Enghreifftiau o gamau gweithredu a chymorth uwchgyfeirio

- Adolygiad gan gymheiriaid clinigol a chyngor arbenigol;
- Cymorth i wella llywodraethiant ansawdd, sicrwydd a dysgu o ddigwyddiadau;
- Adolygiad diagnostig neu adolygiad o wasanaeth â ffocws penodol;
- Cymorth wedi'i dargedu i wella diogelwch cleifion a chynllunio i adfer ansawdd;
- Cymorth gan raglen neu rwydwaith cenedlaethol;
- Adolygiad annibynnol neu sicrwydd allanol lle nodir pryderon difrifol neu systemig;
- Cynghorwyr clinigol annibynnol;
- Asesiad integredig a chymorth cydgysylltiedig gan y Tîm Cymorth Dwys, Adfer a Gweddnewid ar lefel 4+.

## Meini prawf isgyfeirio enghreifftiol

Bydd y dangosyddion a ystyrir yn cynnwys:

- profiad y claf a mesurau diogelwch
- perfformiad o ran cwynion a digwyddiadau
- cyfraddau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd
- marwolaethau a chanlyniadau clinigol, gan gynnwys mamolaeth, SNAP, bwndeli gofal diabetes
- ansawdd data a'r defnydd o systemau electronig megis presgripsiynu digidol.

| Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 |
|---|---|---|
| • cerrig milltir adfer y cytunwyd arnynt wedi'u cyflawni;<br>• risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol a'u lleihau i lefel y gellir ei rheoli;<br>• y bwrdd yn dangos gafael a sicrwydd ansawdd effeithiol er mwyn rheoli risgiau datblygol;<br>• systemau diogelwch ac ansawdd dibynadwy ar waith;<br>• mesurau canlyniadau a phrofiad yn dangos gwelliant o gymharu â'r llinellau sylfaen y cytunwyd arnynt;<br>• canfyddiadau sicrwydd allanol wedi'u hymgorffori a'u rheoli heb gymorth ychwanegol;<br>• caiff gwasanaethau bregus eu goruchwylio'n effeithiol, a chaiff pryderon eu nodi a'u datrys;<br>• gellir rheoli'r camau gweithredu sy'n weddill drwy lai o uwchgyfeirio a mwy o oruchwyliaeth. | • risgiau difrifol yn cael eu rheoli'n effeithiol a'u sefydlogi neu'u lleihau;<br>• y cynllun adfer neu wella integredig yn darparu effaith fesuradwy;<br>• ymyriad allanol wedi cryfhau gallu;<br>• y bwrdd a'r tîm gweithredol yn dangos rheolaeth gredadwy dros risgiau ansawdd a diogelwch;<br>• mesurau canlyniadau a phrofiad yn dangos gwelliant parhaus;<br>• mwy o allu i ymateb i ganfyddiadau sicrwydd allanol;<br>• gwell goruchwyliaeth o wasanaethau bregus, gyda systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod pryderon yn cael eu huwchgyfeirio a'u datrys;<br>• sicrwydd annibynnol yn cefnogi llai o ymyrryd;<br>• wedi cytuno ar gynllun pontio. | • risgiau difrifol yn cael eu rheoli ac yn sefydlogi;<br>• nid oes angen ymyriad dan gyfarwyddyd na chamau statudol mwyach;<br>• y trefniadau llywodraethiant ansawdd yn amlwg yn effeithiol;<br>• mae camau gweithredu a llwybrau o ran canlyniadau a phrofiad ar waith, ynghyd â thystiolaeth o gynnydd.<br>• systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod risgiau sicrwydd allanol yn cael eu deall a bod pryderon uniongyrchol yn cael eu datrys;<br>• caiff risgiau sy'n ymwneud â gwasanaethau bregus a bylchau o ran sicrwydd eu goruchwylio, gyda thystiolaeth o gamau gweithredu a chynnydd cynnar.<br>• mae gan y sefydliad y gallu i barhau i adfer o dan drefniadau lefel 4 neu is;<br>• mae'r risgiau a'r mesurau diogelwch gweddilliol yn glir. |

# Atodiad C. Colofn y gweithlu

## Disgrifiad a chwmpas

Mae colofn y Gweithlu yn rhoi sicrwydd bod gan sefydliadau GIG Cymru weithlu diogel, cynaliadwy ac ymgysylltiedig sydd â'r capasiti, y gallu, y cymysgedd sgiliau a'r diwylliant iawn sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni eu cynlluniau. Mae'n canolbwyntio ar ymgysylltiad staff, llesiant a diogelwch seicolegol; diwylliant, gwerthoedd ac ymddygiadau; cynaliadwyedd a gwydnwch; sgiliau, dysgu a datblygu; ac effaith camau gweithredu o ran y gweithlu ar ansawdd a pherfformiad gweithredol.

Disgwylir i sefydliadau arddangos y canlynol:

- cynlluniau gweithlu clir a chredadwy a llwybrau cyflawni;
- cysoni'r gweithlu, ansawdd a diogelwch, galw am wasanaethau a'u haciwtedd, a chynlluniau ariannol;
- gwaith cynllunio olyniaeth ystyrlon a rheoli'r gronfa dalent;
- trefniadau cadarn ar gyfer codi llais heb ofn;
- cydymffurfiaeth gyson â deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol;
- ymgysylltu ystyrlon â staff a phartneriaid undebau llafur;
- ymrwymiad i ddysgu, hyfforddiant a datblygiad personol a phroffesiynol;
- systemau cadarn ar gyfer nodi, lliniaru ac uwchgyfeirio risgiau'r gweithlu;
- llinellau atebolrwydd clir ar draws pob lefel o'r sefydliad.

## Tystiolaeth graidd

Bydd yr asesiad yn tynnu ar y canlynol:

- cynlluniau a llwybrau'r gweithlu;
- metrigau'r gweithlu;
- data Safon Cydraddoldeb y Gweithlu i Gymru (WRES)
- adroddiadau sicrwydd y Bwrdd a phwyllgor y gweithlu;
- adroddiadau Archwilio Cymru, AGIC ac archwilio mewnol;
- adroddiadau a phryderon datblygol gan golegau brenhinol a chyrff proffesiynol;
- cydymffurfiaeth statudol y gweithlu;
- staffio diogel a llenwi rotas;
- tystiolaeth o allu a sgiliau'r gweithlu digidol.
- ymgysylltiad â staff a chanlyniadau arolygon staff;
- diwylliant sefydliadol a dangosyddion o ran codi llais
- tystiolaeth o gydymffurfiaeth ag argymhellion GIRFT;
- tystiolaeth o gysondeb â goblygiadau cynlluniau, strategaethau ac amcanion y sefydliad o ran y gweithlu.

## Sbardunau uwchgyfeirio enghreifftiol

| Lefel | Sbardunau enghreifftiol |
|---|---|
| Lefel 2 | Cynnydd mewn cyfraddau swyddi gwag, trosiant staff neu salwch; pwysau ar y gweithlu sy'n effeithio ar y broses o ddarparu gwasanaethau; anawsterau wrth gynnal lefelau staffio mewn |

| Lefel | Sbardunau enghreifftiol |
|---|---|
| | gwasanaethau allweddol; pryderon datblygol ynghylch ymgysylltiad staff. |
| Lefel 3 | Prinder parhaus yn y gweithlu; pryderon am lefelau staffio anniogel; problemau sylweddol o ran diwylliant y sefydliad; risgiau yn ymwneud â'r gweithlu sy'n effeithio ar berfformiad, cyllid neu ansawdd. |
| Lefel 4 | Ansefydlogrwydd difrifol yn y gweithlu sy'n effeithio ar gynaliadwyedd y sefydliad; anallu i gynnal lefelau staffio diogel ar draws sawl gwasanaeth; risgiau gweithredol helaeth sy'n gysylltiedig â'r gweithlu. |
| Lefel 5 | Sefyllfa'r gweithlu yn bygwth parhad gwasanaethau hanfodol; anallu'r sefydliad i recriwtio, cadw neu ddefnyddio digon o staff; methiant y gweithlu yn cyfrannu at ansefydlogrwydd difrifol yn y sefydliad. |

## Offer ac adnoddau

- Fframwaith GIG Cymru codi llais heb ofn
- Canllawiau Llywodraeth Cymru - Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol | Is-bwnc | LLYW.CYMRU
- Cymru Iachach: Ein strategaeth y gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol (2020)
- Lefelau staff nyrsio: canllawiau statudol ar gyfer byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG | LLYW.CYMRU
- Cylchlythyrau Iechyd Cymru
- Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu: Mynd i'r Afael â Heriau Gweithlu GIG Cymru (2023)
- Gweledigaeth strategol ar gyfer nyrsio a bydwreigiaeth 2025 i 2030
- Safon Cydraddoldeb y Gweithlu - GIG Cymru
- Cynlluniau Gweithlu Strategol AaGIC
- Gweithlu - AaGIC
- Arsyllfa Gweithlu - AaGIC
- Gwybodaeth am y Gweithlu a Chynllunio – AaGIC
- Strategaeth Addysg Genedlaethol (wrthi'n cael ei datblygu)

## Enghreifftiau o gamau gweithredu a chymorth uwchgyfeirio

- cynllunio a modelu'r gweithlu;
- cymorth recriwtio, cadw staff ac ailgynllunio;
- ymyriadau ynghylch datblygu sefydliadol, diwylliant ac ymgysylltu â staff;
- cymorth wedi'i dargedu i fynd i'r afael â risgiau staffio critigol a phryderon am lefelau staffio diogel;
- cymorth arweinyddiaeth a thalent;
- defnyddio arbenigedd ym maes y gweithlu, megis recriwtio, cadw staff, ailgynllunio'r gweithlu a chynllunio olyniaeth;

- Asesiad cynhyrchiant GIRFT;
- cydgysylltu gan y Tîm Cymorth Dwys, Adfer a Gwyrdroi lle mae'r gweithlu yn amod craidd ar gyfer gwyrdroi.

## Meini prawf isgyfeirio enghreifftiol

Bydd y dangosyddion a ystyrir yn cynnwys:

- cyfraddau swyddi gwag
- trosiant staff a lefelau cadw staff
- absenoldeb oherwydd salwch
- y defnydd o staff asiantaeth a bancSafon Cydraddoldeb y Gweithlu i Gymru (WRES)
- sgoriau llesiant staff
- brechu staff
- cydymffurfiaeth â hyfforddiant

| Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 |
|---|---|---|
| • dangosyddion y gweithlu wedi gwella o gymharu â cherrig milltir adfer y cytunwyd arnynt a gyflawnwyd;<br>• caiff risgiau i'r gweithlu eu nodi, eu huwchgyfeirio a'u rheoli'n rheolaidd drwy drefniadau llywodraethiant sefydledig;<br>• mae'r bwrdd yn dangos gafael a sicrwydd effeithiol o ran risgiau'r gweithlu a chamau gwella;<br>• mae cynllun y gweithlu yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a chynnal perfformiad ariannol yn gynaliadwy;<br>• tystiolaeth o wydnwch gwell o ran y gweithlu yn y meysydd sy'n wynebu'r risg uchaf;<br>• y gwelliannau wedi'u cynnal dros y cyfnod adolygu y cytunwyd arno;<br>• tystiolaeth bod y camau gweithredu o ran llesiant, ymgysylltu a diwylliant yn effeithiol; | • risgiau o ran lefelau staffio diogel a capasiti critigol wedi'u sefydlogi;<br>• gwelliant parhaus o gymharu â dangosyddion y gweithlu;<br>• caiff gwelliannau meintiol eu cefnogi gan sicrwydd ansoddol bod achosion sylfaenol wedi cael datrys;<br>• tystiolaeth o wydnwch gwell yn y gweithlu a llai o risg weithredol sy'n deillio o brinder staff.<br>• mae gwaith monitro allanol yn cadarnhau bod gan y sefydliad well gafael a rheolaeth ar faterion y gweithlu;<br>• mae trefniadau adfer y gweithlu wedi'u hymgorffori ym mhrosesau cynllunio a llywodraethiant arferol y sefydliad;<br>• wedi cytuno ar gynllun pontio. | • rheoli risgiau critigol o ran staffio yn effeithiol, a swyddi a galluoedd allweddol wedi'u sicrhau;<br>• tystiolaeth o fesurau lliniaru i sicrhau lefelau staffio diogel;<br>• cynlluniau lliniaru ar waith ar gyfer meysydd bregus o ran y gweithlu;<br>• tuedd addawol o gymharu â dangosyddion y gweithlu;<br>• tystiolaeth o brosesau cryfach ar gyfer cynllunio'r gweithlu, cynllunio olyniaeth, datblygu arweinyddiaeth a rheoli risgiau;<br>• nid oes angen ymyriad dan gyfarwyddyd na chamau statudol mwyach;<br>• goruchwyliaeth gryfach gan y bwrdd a'r pwyllgorau dros gamau gwella;<br>• mae gan y sefydliad y gallu i barhau i adfer o dan drefniadau lefel 4 neu is; |

| | | |
|---|---|---|
| • gellir rheoli'r camau gweithredu sy'n weddill drwy lai o uwchgyfeirio a mwy o oruchwyliaeth. | | • mae'r risgiau a'r mesurau diogelwch gweddilliol yn glir. |

# Atodiad D. Colofn cyllid a chynllunio

## Disgrifiad a chwmpas

Mae'r golofn cyllid a chynllunio yn rhoi sicrwydd bod sefydliadau'r GIG yn cyflawni eu dyletswyddau statudol o ran sicrhau eu bod yn cyflawni cydbwysedd ariannol dros gyfnod o dair blynedd a bod ganddynt Gynlluniau Tymor Canolig Integredig y gellir eu cymeradwyo.

Disgwylir i sefydliadau arddangos y canlynol:

- cynllun ariannol credadwy i fantoli'r gyllideb neu gyflawni'r disgwyliad y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru;
- dealltwriaeth glir o'r ffactorau sy'n rheoli costau y tu ôl i'r diffyg ariannol sylfaenol;
- goruchwyliaeth effeithiol gan y Bwrdd a'r pwyllgor cyllid o risgiau perthnasol i gyflawni;
- triongli'r cynllun ariannol â'r disgwyliadau o ran y gweithlu a chyflawni;
- rheoli cyfalaf ac ystadau mewn ffordd gredadwy ac effeithiol;
- cyflawni buddsoddiad cyfalaf a seilwaith ystadau.
- strategaeth a chynllun credadwy ar gyfer gwasanaethau clinigol;
- datblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig 3 blynedd sy'n gytbwys yn ariannol ac sydd wedi'u cymeradwyo gan Weinidogion Cymru;
- prosesau cynllunio aeddfed sydd wedi'u hymgorffori;
- cyflawni dyletswyddau cynllunio ac ariannol;
- cynllunio a chomisiynu rhanbarthol;
- cyflawni yn erbyn amodau atebolrwydd.

## Tystiolaeth graidd

Bydd yr asesiad yn tynnu ar y canlynol:

- ffurflenni monitro misol a rhagolygon;
- cynllun ariannol, cyfanswm rheoli a rhaglen arbedion;
- sicrwydd ynghylch llywodraethiant a rheolaeth ariannol;
- Cynllun Tymor Canolig Integredig neu asesiad cynllun blynyddol;
- aeddfedrwydd a gweithrediad strategaethau a chynlluniau gwasanaethau clinigol;
- hunanasesiad drwy gwblhau'r matrics aeddfedrwydd cynllunio blynyddol;
- risgiau cyfalaf ac ystadau;
- tystiolaeth o werth a chynhyrchiant;
- adroddiadau Archwilio Cymru, AGIC ac archwilio mewnol;
- Adroddiadau sicrwydd y Bwrdd a'r pwyllgor cyllid.

## Sbardunau uwchgyfeirio enghreifftiol

| Lefel | Sbardunau enghreifftiol |
|---|---|
| Lefel 2 | Risg o fethu â chyflawni'r cynllun ariannol; risgiau cyflawni mewn perthynas â rhaglenni arbedion; rhagolygon ariannol anffafriol; pryderon datblygol am gynaliadwyedd ariannol. Risg o ran datblygu neu gyflawni Cynllun Tymor Canolig Integredig. |

| Lefel | Sbardunau enghreifftiol |
|---|---|
| Lefel 3 | Dirywiad sylweddol mewn perfformiad ariannol; methiant dro ar ôl tro i gyflawni llwybrau adfer; methu â chyflawni cynlluniau arbedion y cytunwyd arnynt; cynllun adfer yr aseswyd ei fod yn wan neu'n peri risg uchel. Anallu i gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig y gellir ei gymeradwyo (ond cynllun blynyddol credadwy ar waith). |
| Lefel 4 | Risg ddifrifol i gynaliadwyedd ariannol; dirywiad sylweddol er gwaethaf cymorth i adfer; anallu i gyflawni cynlluniau adfer credadwy; gwendidau sylweddol o ran rheolaeth ariannol. Anallu i gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig y gellir ei gymeradwyo. Risg ddifrifol o ran cyflawni'r cynllun blynyddol. |
| Lefel 5 | Achos gwirioneddol neu achos sydd ar fin digwydd o dorri dyletswyddau ariannol statudol; sefyllfa ariannol a ystyrir yn anghynaliadwy; methiant trefniadau adfer blaenorol; gofyniad am ymyriad eithriadol. Diffyg strategaeth gwasanaethau clinigol a chynllun blynyddol credadwy. |

## Offer ac adnoddau

- Matrics aeddfedrwydd cynllunio
- Egwyddorion gweithio rhanbarthol (wrthi'n cael eu datblygu)
- Bwrdd gwerth a chynaliadwyedd
- Fframweithiau cynllunio blynyddol GIG Cymru | LLYW.CYMRU
- Rheolaeth ariannol y GIG | Is-bwnc | LLYW.CYMRU
- Academi Gyllid GIG Cymru
- Gwasanaethau Ystadau Arbenigol - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- Rhaglen Ddysgu ym maes Cynllunio - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- Strategaeth Ymladd Twyll ar gyfer GIG Cymru 2026 – 2030
- Nodiadau Adeiladu Iechyd Cymru a Nodiadau Adeiladu Iechyd

## Enghreifftiau o gamau gweithredu a chymorth uwchgyfeirio

- arbenigedd ym meysydd adfer a gwyrdroi ariannol;
- adolygiad annibynnol o gynlluniau a rheolaethau;
- llwybrau cynaliadwyedd ac adfer;
- nodi cyfleoedd i sicrhau arbedion, cynhyrchiant ac effeithlonrwydd;
- rheolaeth gryfach ar raglenni a buddion;
- cryfhau’r gwaith o ddatblygu’r Cynllun Tymor Canolig Integredig a chynllunio adfer;
- cysondeb rhwng cynlluniau ariannol a blaenoriaethau'r gwasanaethau;
- her a chymorth mewn perthynas â rheolaethau ariannol, rhagamcanu a chyflawni rhaglenni arbedion;
- arbenigedd ym meysydd cyfalaf, ystadau neu gynllunio;
- gwyrdroi ariannol a sefydliadol integredig gan y Tîm Cymorth Dwys, Adfer a Gweddnewid ar lefel 4+.

## Meini prawf isgyfeirio enghreifftiol

| Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 |
|---|---|---|
| • cerrig milltir a llwybrau adfer y cytunwyd arnynt wedi’u cyflawni;<br>• Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd y gellir ei gymeradwyo ac sydd wedi'i gydbwyso'n ariannol;<br>• mae'r Bwrdd yn dangos gafael a sicrwydd effeithiol o ran yr amgylchedd rheoli ariannol a'r risgiau i gyflawni;<br>• cynllun/strategaeth gwasanaethau clinigol cadarn ar waith;<br>• triongli'r sefyllfa ariannol yn effeithiol â'r disgwyliadau o ran y gweithlu a chyflawni;<br>• y rhaglen arbedion a chynhyrchiant yn darparu budd rheolaidd;<br>• cyflawni ymrwymiadau a chamau gweithredu partneriaeth y cytunwyd arnynt;<br>• gellir rheoli'r camau gweithredu sy'n weddill drwy lai o uwchgyfeirio a mwy o oruchwyliaeth. | • y risgiau difrifol i gyflawni yn cael eu rheoli'n effeithiol a'u sefydlogi neu'u lleihau;<br>• tystiolaeth o drywydd effeithiol tuag at gydbwysedd ariannol;<br>• dealltwriaeth a rheolaethau clir ar waith i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n rheoli costau y tu ôl i'r diffyg sylfaenol;<br>• cynllun blynyddol y gellir ei gymeradwyo ar waith;<br>• cynllun/strategaeth gadarn ar gyfer gwasanaethau clinigol ar waith (neu dystiolaeth gref o gynnydd wrth ei ddatblygu);<br>• y Bwrdd a'r tîm gweithredol yn dangos rheolaeth gredadwy gyda threfniadau llywodraethiant ariannol cadarn ar waith;<br>• tystiolaeth o gyfranogiad effeithiol mewn trefniadau cynllunio a chyflawni rhanbarthol;<br>• sicrwydd annibynnol yn cefnogi llai o ymyrryd;<br>• wedi cytuno ar gynllun pontio. | • methiant sefydliadol difrifol neu risg uniongyrchol wedi'u rheoli'n effeithiol ac yn sefydlogi;<br>• nid oes angen ymyriad dan gyfarwyddyd na chamau statudol mwyach;<br>• tystiolaeth o brosesau cynllunio sy’n gwella ac yn aeddfedu;<br>• tystiolaeth o gynnydd tuag at ddatblygu cynllun/strategaeth gwasanaethau clinigol<br>• dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n rheoli costau y tu ôl i'r diffyg ariannol sylfaenol; |

# Atodiad E. Colofn Cyflawni a Pherfformiad

## Disgrifiad a chwmpas

Mae'r golofn cyflawni/perfformiad yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau, safonau perfformiad a llwybrau adfer gwasanaethau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. Mae'n ystyried a yw sefydliadau'n darparu mynediad amserol at ofal, yn bodloni disgwyliadau perfformiad cenedlaethol, ac yn gwella canlyniadau drwy ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. Mae'n cwmpasu gofal brys a gofal mewn argyfwng, gofal a gynlluniwyd, canser, diagnosteg, gofal sylfaenol, atal a safonau mynediad cenedlaethol eraill.

Disgwylir i sefydliadau arddangos y canlynol:

- cyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol;
- canlyniadau iechyd gwell;
- llwybrau credadwy;
- mynediad ac amseroedd aros gwell;
- cynhyrchiant a llif gwell;
- gwydnwch gweithredol.

## Tystiolaeth graidd

Bydd yr asesiad yn tynnu ar y canlynol:

- un pecyn perfformiad a mesurau a gyhoeddwyd;
- dadansoddiad tueddiadau, amrywiadau a meincnodi;
- cynlluniau a llwybrau adfer y gwasanaeth;
- tystiolaeth o gapasiti a galw;
- gwybodaeth am risg weithredol a gwydnwch;
- tystiolaeth o lwybrau a chanlyniadau cleifion.

## Sbardunau uwchgyfeirio enghreifftiol

| Lefel | Sbardunau enghreifftiol |
|---|---|
| Lefel 2 | Tanberfformio parhaus o gymharu â'r safonau cenedlaethol; methu llwybrau gwella; dirywiad mewn dangosyddion mynediad neu berfformiad allweddol; risgiau cyflawni datblygol. |
| Lefel 3 | Methiant parhaus o gymharu â safonau perfformiad allweddol; methiant dro ar ôl tro i gyflawni cerrig milltir adfer y cytunwyd arnynt; dirywiad sy'n effeithio ar fynediad a chanlyniadau cleifion; ychydig iawn o welliant er gwaethaf cymorth. |
| Lefel 4 | Methiant perfformio sylweddol a helaeth; effaith fawr ar fynediad i gleifion, amseroedd aros neu gynaliadwyedd gwasanaethau; dirywiad er gwaethaf trefniadau adfer ffurfiol. |

| Lefel | Sbardunau enghreifftiol |
|---|---|
| Lefel 5 | Methiant sefydliadol difrifol ar draws sawl maes perfformiad; analluir i barhau i ddarparu gwasanaethau craidd; methiant trefniadau ymyrryd; risgiau eithriadol i ddarparu gwasanaethau a hyder y cyhoedd. |

## Offer ac Adnoddau

- Fframwaith perfformiad GIG Cymru ac adroddiadau | LLYW.CYMRU
- Canllawiau amseroedd aros gofal a gynlluniwyd: Ebrill 2025 | LLYW.CYMRU
- Adnoddau - Getting It Right First Time - GIRFT
- Canllawiau ar drosglwyddo cleifion o ambiwlansys – LLYW.CYMRU
- Cyflyrau iechyd | Is-bwnc | LLYW.CYMRU
- Llwybrau Canser a Amheuir - Llwybrau Optimaidd Cenedlaethol
- Rhwydweithiau - Perfformiad a Gwella GIG Cymru
- Strategaeth Canser Genedlaethol (wrthi'n cael ei datblygu)
- Matrics aeddfedrwydd cyflawni gweithredol (pan fydd wedi cael ei ddatblygu)

## Enghreifftiau o gamau gweithredu a chymorth uwchgyfeirio

- cymorth diagnostig a gwella gweithredol;
- galw, capasiti, cynhyrchiant ac ailgynllunio llwybrau;
- cymorth wedi'i dargedu ar gyfer amseroedd aros, gofal brys a gofal mewn argyfwng, diagnosteg, gofal a gynlluniwyd, iechyd meddwl neu feysydd blaenoriaeth eraill;
- cymorth rhwydweithiau clinigol a rhaglenni i ailgynllunio gwasanaethau a gwella llwybrau;
- cymorth rheoli rhaglenni i gyflawni llwybrau a cherrig milltir adfer y cytunwyd arnynt;
- dysgu wedi'i hwyluso gan sefydliadau sy'n perfformio'n well a chyfleoedd i fanteisio ar fethodolegau gwella sydd wedi'u profi;
- adolygiad annibynnol o wasanaethau neu gymorth cynghori;
- cydlynu adferiad dwys o ran cyflawni gan y Tîm Cymorth Dwys, Adfer a Gwyrdroi ar lefel 4+.

## Meini prawf isgyfeirio enghreifftiol

Bydd y dangosyddion a ystyrir yn cynnwys:

- Canser - % y cleifion sy'n dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf ar gyfer canser o fewn 62 diwrnod o'r pwynt amheuaeth (ni waeth beth fo'u llwybr atgyfeirio)
- Gofal a gynlluniwyd:
  - Nifer y cleifion sy'n aros mwy na 104 wythnos i gael eu hatgyfeirio am driniaeth
  - Nifer y cleifion sy'n aros mwy nag wyth wythnos am brawf diagnostig penodedig
- Gofal brys a gofal mewn argyfwng:
  - Nifer yr achosion o drosglwyddo cleifion o ambiwlansys a gymerodd fwy na 45 munud
  - Nifer y cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy ym mhob cyfleuster gofal mewn argyfwng mawr a bach mewn ysbyty o adeg cyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau

- Iechyd meddwl a niwroddatblygiadol:
  - % yr asesiadau iechyd meddwl Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol Lleol (LPMHSS) a gynhaliwyd o fewn 28 diwrnod i ddyddiad yr atgyfeiriad
  - % yr ymyriadau therapiwtig a ddechreuwyd o fewn 28 diwrnod yn dilyn asesiad Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol (LMPHSS)
  - % y plant a phobl ifanc sy'n aros llai na 26 wythnos i ddechrau asesiad niwroddatblygiad ADHD neu ASD
- Iechyd cyhoeddus ac atal:
  - % yr ysmygwyr sy'n oedolion sy'n gwneud ymgais i roi'r gorau iddi drwy wasanaethau rhoi'r gorau i smygu
  - % y bobl sydd wedi cael eu hatgyfeirio at wasanaethau'r bwrdd iechyd sydd wedi cwblhau triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau (cyffuriau neu alcohol)
  - % y plant sydd wedi cael eu holl frechiadau arferol erbyn iddynt gyrraedd 5 oed
- Gofal sylfaenol a chymunedol:
  - % y boblogaeth sy'n cael gofal deintyddol gan y GIG

| Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 |
|---|---|---|
| • gwelliant cynaliadwy o gymharu â mesurau mynediad, canlyniadau a chynhyrchiant;<br>• rheolaethau gweithredol a systemau rheoli dibynadwy ar waith;<br>• y Bwrdd a'r tîm gweithredol yn dangos goruchwyliaeth, her a sicrwydd effeithiol o ran risgiau cyflawni;<br>• gwelliant wedi'i gynnal am y cyfnod adolygu y cytunwyd arno, heb effaith annerbyniol ar ansawdd, y gweithlu na chyllid;<br>• gellir rheoli'r camau gweithredu sy'n weddill drwy lai o uwchgyfeirio a mwy o oruchwyliaeth. | • tuedd addawol barhaus o gymharu â mesurau mynediad, canlyniadau a chynhyrchiant;<br>• y pwysau ar wasanaethau a'r risgiau gweithredol yn cael eu rheoli'n effeithiol neu eu lleihau i lefel y gellir ei rheoli;<br>• y cynllun adfer neu wella integredig yn darparu effaith fesuradwy;<br>• ymyriad allanol wedi cryfhau gallu;<br>• y bwrdd a'r tîm gweithredol yn dangos gwell goruchwyliaeth o risgiau perfformiad a chamau gwella;<br>• sicrwydd annibynnol yn cefnogi llai o ymyrryd;<br>• wedi cytuno ar gynllun pontio. | • mae’r pryderon critigol am berfformiad wedi lleihau’n sylweddol yn unol â’r llinellau sylfaen a’r cerrig milltir y cytunwyd arnynt;<br>• mae cynlluniau adfer a gwella credadwy ar waith;<br>• goruchwyliaeth gryfach gan y bwrdd a'r pwyllgorau dros risgiau perfformiad ac effaith ar ansawdd;<br>• tystiolaeth bod mecanweithiau priodol ar waith i ddeall ac ymdrin â’r ffactorau sy’n cyfrannu at wasanaethau bregus;<br>• nid oes angen ymyriad dan gyfarwyddyd na chamau statudol mwyach;<br>• mae gan y sefydliad y gallu i barhau i adfer o dan drefniadau lefel 4 neu is;<br>• mae'r risgiau a'r mesurau diogelwch gweddilliol yn glir. |

# Atodiad F. Rhestr termau

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Ansawdd | Gallu cyson i ddarparu gofal diogel, amserol, effeithiol, effeithlon a theg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n diwallu anghenion y boblogaeth, ac a ategir gan ddysgu a gwelliant parhaus. |
| Archwiliad | Adolygiad systematig o ymarfer, proses neu berfformiad yn erbyn meini prawf y cytunwyd arnynt, er mwyn nodi problemau, helpu i wella ac asesu p'un a yw'r newidiadau'n effeithiol. |
| Archwilio Cymru | Yr enw torfol, anstatudol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. |
| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | Arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. |
| Arwain yn dda | Y maes sylfaen sy'n cwmpasu arweinyddiaeth, trefniadau llywodraethiant, diwylliant, strategaeth, risg, sicrwydd a'r gallu i wella. |
| Atebolrwydd | Cyfrifoldeb am sicrhau bod disgwyliadau'n cael eu bodloni ac am egluro penderfyniadau, camau gweithredu, perfformiad a chanlyniadau. |
| Awdurdod Iechyd Arbennig | Un o gyrff statudol y GIG, a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru i gyflawni swyddogaethau penodedig ar eu rhan. Mae dau awdurdod iechyd arbennig:<br>• Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn arwain systemau, llwyfannau a gwasanaethau data digidol cenedlaethol;<br>• Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn arwain addysg, hyfforddiant, datblygu'r gweithlu a chynllunio'r gweithlu ledled Cymru. |
| Bwrdd | Y corff corfforaethol sy’n gwneud penderfyniadau ar ran bwrdd iechyd, ymddiriedolaeth neu awdurdod iechyd arbennig. |
| Bwrdd iechyd | Sefydliadau GIG Cymru sy'n gyfrifol am gynllunio, sicrhau a darparu gwasanaethau gofal iechyd i boblogaethau lleol, ac am wella canlyniadau iechyd a lleihau anghydraddoldebau. Mae saith bwrdd iechyd:<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| | • Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<br>• Bwrdd Addysgu Powys<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| Bwrdd Uwchgyfeirio | Cyfarfod dan gadeiryddiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer sefydliad ar lefel 3 i 5, yn canolbwyntio ar feini prawf adfer ac isgyfeirio. |
| Canlyniadau | Effaith fesuradwy gofal, triniaeth neu ymyriad arall ar unigolyn, grŵp neu boblogaeth. |
| Canlyniadau clinigol | Newid mesuradwy o ran iechyd neu ansawdd bywyd unigolyn yn dilyn gofal neu driniaeth. |
| Colofn | Un o'r pedwar maes atebolrwydd: Ansawdd, y Gweithlu, Cyllid/Cynllunio a Chyflawni/Perfformiad. |
| Corff GIG Cymru | Bwrdd iechyd, ymddiriedolaeth neu awdurdod iechyd arbennig statudol y GIG yng Nghymru. |
| Cyfarfod adolygu atebolrwydd | Cyfarfod lefel uchel a gynhelir ddwywaith y flwyddyn gydag un o gyrff y GIG, sy'n gweithredu ochr yn ochr â threfniadau perfformiad ac uwchgyfeirio sy'n seiliedig ar risg. |
| Cyfarfod goruchwylio Tîm Cyfarwyddwyr Gweithredol LIC / Tîm Uwch-gyfarwyddwyr Perfformiad a Gwella GIG Cymru | Y rhyngwyneb ar lefel system ar gyfer synthesis ar draws y system, risgiau datblygol, effaith cymorth a materion y mae angen i Lywodraeth Cymru weithredu yn eu cylch. |
| Cymorth | Cyngor, arbenigedd, cymorth gan gymheiriaid, gwaith diagnostig, gallu i wella neu gymorth arall sydd â'r nod o alluogi adferiad a chyflawni cynaliadwy. |
| Cynllun Gwella Integredig | Yr unig gynllun sy'n eiddo i'r sefydliad sy'n dwyn ynghyd gamau adfer, cerrig milltir, adnoddau, canlyniadau a meini prawf isgyfeirio. |
| Cynllun Tymor Canolig Integredig | Y cynllun statudol tair blynedd lle mae corff y GIG yn nodi ei fwriadau o ran cyflawni, gwasanaethau, y gweithlu a chyllid. |
| Cyrff adolygu allanol | Sefydliadau annibynnol sy'n adolygu, arolygu neu archwilio sut mae gwasanaethau'r GIG yn cael eu llywodraethu a'u darparu, gan gynnwys Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Digwyddiad diogelwch cleifion | Digwyddiad anfwriadol neu annisgwyl ym maes gofal iechyd a achosodd, neu a allai fod wedi achosi, niwed, ac y dylid rhoi gwybod amdano er mwyn helpu i ddysgu ac atal hynny rhag digwydd eto. |
| Dyletswydd ansawdd | Ystyr dyletswydd ansawdd gyfreithiol yw gofalu bod Gweinidogion Cymru a chyrff y GIG yn sicrhau gwelliannau parhaus o ran ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Mae'r ddyletswydd yn cynrychioli ein huchelgais i gyflawni safonau uwch byth o wasanaethau iechyd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yng Nghymru. |
| Dyletswydd ariannol | Y ddyletswydd gyfreithiol ar sefydliadau GIG Cymru i gynnal cydbwysedd ariannol, dangos stiwardiaeth effeithiol o adnoddau cyhoeddus ac ymdrin â risgiau i berfformiad neu gynaliadwyedd ariannol. |
| Dyletswydd gonestrwydd | Dyletswydd gyfreithiol i fod yn agored ac yn onest wrth ymdrin â phobl a theuluoedd pan fydd gofal yn mynd o chwith, gan gynnwys egluro'r hyn a ddigwyddodd ac ymddiheuro. |
| Fframwaith Adfer | Y gofynion, y trefniadau llywodraethiant, y cerrig milltir, y cymorth a'r meini prawf ar gyfer isgyfeirio sydd wedi'u cofnodi ar gyfer sefydliad sy'n destun trefniadau uwchgyfeirio ffurfiol. |
| Fframwaith Cynllunio | Y canllawiau cenedlaethol ar gyfer cyrff y GIG ar ddatblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol a gofynion polisi. |
| Fframwaith Perfformiad | Y fframwaith cenedlaethol ar gyfer mesur ac adrodd ar berfformiad GIG Cymru yn erbyn blaenoriaethau a gofynion cynllunio y cytunwyd arnynt. |
| Fframweithiau | Mae fframweithiau'n cyfeirio at fframweithiau cynllunio, perfformiad ac ansawdd a diogelwch GIG Cymru. |
| Gofal arbenigol neu drydyddol | Gofal i bobl sydd angen asesiad, triniaeth neu ymyriad cymhleth neu arbenigol iawn, a ddarperir gan dimau arbenigol sydd â'r arbenigedd a'r cyfleusterau angenrheidiol. |
| Gofal eilaidd | Gofal iechyd mewn ysbyty, sydd fel arfer yn cael ei gyrchu drwy atgyfeiriad o ofal sylfaenol. |
| Gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth | Dull sy'n ceisio gwella canlyniadau cleifion gan sicrhau'r defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Gofal sylfaenol | Gofal iechyd a ddarperir y tu allan i'r ysbyty, gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan feddygon teulu, nyrsys, ymwelwyr iechyd, bydwragedd, fferyllwyr, deintyddion, optometryddion a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill. |
| Gwasanaethau clinigol neu fregus | Gwasanaeth sydd mewn perygl o ddod yn anghynaliadwy neu fethu oherwydd pwysau megis cyfyngiadau ar y gweithlu, ffurfweddiad gwasanaethau, galw, capasiti neu wydnwch. |
| Isgyfeirio | Gostyngiad ffurfiol yn y lefel uwchgyfeirio yn dilyn gwelliant amlwg a pharhaus a gostyngiad mewn risg. |
| Llwybr gofal neu glinigol | Cynllun safonol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n disgrifio dilyniant y gofal, yr ymyriadau, yr amserlenni, y cerrig milltir a'r canlyniadau disgwyliedig ar gyfer grŵp diffiniedig o gleifion, gan gynnwys symud rhwng gwasanaethau lle bo hynny'n berthnasol. |
| Llywodraethiant | Y systemau, y prosesau a'r ymddygiadau a ddefnyddir i arwain, cyfarwyddo a rheoli sefydliad. Yn y GIG, mae hyn yn cynnwys trefniadau llywodraethiant clinigol, ariannol a sefydliadol, a dylai fod yn sail i bob gweithgarwch. |
| Llywodraethiant clinigol | Fframwaith o systemau, prosesau a rheolaethau sy'n cefnogi sefydliadau'r GIG i wella ansawdd, cynnal safonau gofal uchel a chreu'r amodau ar gyfer rhagoriaeth glinigol. |
| Maes sylfaen | Arweinyddiaeth (Arwain yn dda), sy'n sail i gyflawni a sicrwydd ar draws y pedair colofn atebolrwydd. |
| Perfformiad a Gwella GIG Cymru | Y swyddogaeth genedlaethol sy'n cefnogi gwelliant ac yn darparu sicrwydd gweithredol i Lywodraeth Cymru. |
| Profiad y claf | Yr agweddau ar ofal sy'n bwysig i gleifion, gan gynnwys parch at werthoedd, dewisiadau ac anghenion unigolion, cyfathrebu, cysur corfforol a pharhad gofal. |
| Safonau iechyd a gofal | Fframwaith cyffredin Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi gofal effeithiol, amserol ac o ansawdd uchel ym mhob lleoliad gofal iechyd. Maent yn gosod disgwyliadau ar gyfer y GIG a sefydliadau partner, ac yn disgrifio'r hyn y gall pobl Cymru ei ddisgwyl gan wasanaethau iechyd, gan gynnwys eu rôl wrth gefnogi eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. |
| Sylfaen dystiolaeth gyffredin | Y set ddata a lywodraethir, y naratif, y sicrwydd a'r storfa dystiolaeth a ddefnyddir ar draws trefniadau atebolrwydd ac uwchgyfeirio. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Tîm Cymorth Dwys, Adfer a Gwyrdroi | Y swyddogaeth Cymorth Dwys, Adfer a Gwyrdroi o fewn Perfformiad a Gwella GIG Cymru, a gomisiynir ar gyfer gwaith asesu, cymorth ac adfer dwys. |
| Tîm gweithredol | Y tîm uwch-arweinwyr sy'n gyfrifol am reoli o ddydd i ddydd, cyflawni gweithredol a rhoi strategaethau ar waith yn un o sefydliadau'r GIG. |
| Trefniadau teirochrog | Y broses strwythuredig lle mae Archwilio Cymru, AGIC a Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn rhannu tystiolaeth â Llywodraeth Cymru ac yn llywio argymhellion ynghylch uwchgyfeirio neu isgyfeirio materion, gan barhau i gyflawni eu rolau penodol. |
| Uwchgyfeirio | Y broses ffurfiol lle caiff pryderon eu symud i lefel craffu, cymorth neu ymyrryd uwch. |
| Ymddiriedolaethau | Sefydliadau GIG Cymru sydd â ffocws ar Gymru gyfan ac sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau penodedig. Mae tair ymddiriedolaeth GIG:<br>• Mae Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn darparu gwasanaethau ambiwlans, gwasanaethau brys, gwasanaethau nad ydynt yn rhai brys, a gwasanaeth 111 y GIG ar lefel genedlaethol;<br>• Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn darparu gwasanaethau canser arbenigol a Gwasanaeth Gwaed Cymru;<br>Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu arweinyddiaeth genedlaethol ym maes iechyd cyhoeddus, gan gynnwys diogelu a gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd. |
| Ymreolaeth a enillwyd | Gostyngiad cymesur mewn prosesau goruchwylio ac adrodd lle mae sefydliad yn dangos darpariaeth ddibynadwy a threfniadau llywodraethiant aeddfed. |
| Ymyriad | Camau a gymerir neu a gomisiynir i gryfhau gallu, sefydlogi gwasanaethau, sicrhau darpariaeth neu unioni methiant. |